# Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer 2025/26

## Cynnwys


**Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer** .... **1**

**Cynnwys** .... **1**

**Fformat Amgen** .... **4**

**Ynglŷn â'r Weithdrefn hon** .... **4**

**Cwmpas** .... **5**

Yr hyn y mae'r weithdrefn hon yn ei gwmpasu .... 5

Yr hyn nad yw'r weithdrefn hon yn ei gwmpasu .... 6

**Cymorth a Gwybodaeth** .... **7**

Sut i gysylltu â ni .... 7

**Y weithdrefn** .... **7**

1 Diben .... 7

2 Egwyddorion y Weithdrefn .... 8

3 Cytundebau ysgrifenedig .... 10

4 Gweithredu a gorfodi'r weithdrefn .... 12

5 Hawl i Apelio .... 27

6 Diffyg cydymffurfio .... 27

7 Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth .... 28

8 Safonau'r Gymraeg .... 29

**Diffiniadau** .... **30**

Swyddfa'r Goron a'r Gwasanaeth Procuradur Ffisgal (COPFS) .... 30

Addasrwydd i Ymarfer .... 30

Cyflogwr Llwybr Annibynnol .... 30

Panel Ymchwilio .... 30

Amgylchiadau lliniarol a/neu waethygol ... 31
Panel y Cyfarfod Adolygu ... 31
Uwch-awdurdod ... 31
Data Categori Arbennig ... 31
Grŵp Addasrwydd i Ymarfer Arbenigol ... 32
Noddwr/Asiantaeth Noddi (Gwaith Cymdeithasol)/Ysgol Bartner (TAR) ... 32
Un o Fyfyrwyr Y Brifysgol Agored ... 32
**Deddfwriaeth a Pholisïau Cysylltiedig ... 32**
Dogfennau sy'n llywodraethu eich astudiaethau: ... 32
Gwybodaeth a Chanllawiau: ... 33
Safonau'r Gymraeg ... 33
Rhoi Gwybod mewn Lle Diogel ... 33
Gwerthoedd Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored ... 34
Ymrwymiad Y Brifysgol Agored i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ... 34
Rhowch Eich Adborth i Ni ... 34
Datganiad yr Elusen ... 34
**Ynglŷn â'r Ddogfen hon ... 34**
Crynodeb o'r Newidiadau Sylweddol ers y fersiwn flaenorol ... 35
Polisïau a Ddisodlir gan y Ddogfen hon ... 35
Gwybodaeth am y Ddogfen ... 35
**Atodiadau ... 36**
**Atodiad 1: Amserlen enghreifftiol ar gyfer Cyfarfod Adolygu ... 36**
**Atodiad 2: Gwaith Cymdeithasol ... 38**
1. Rhaglen Broffesiynol Gwaith Cymdeithasol (Lloegr) ... 38
2. Rhaglen Broffesiynol Gwaith Cymdeithasol (yr Alban) ... 39
3. Rhaglen Broffesiynol Gwaith Cymdeithasol (Cymru) ... 40
4. Rhaglen Broffesiynol Gwaith Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) ... 41

**Atodiad 3: Nyrsio.......... 43**

1. Rhaglen Broffesiynol Nyrsio .......... 43
2. Gofynion mynediad penodol ar gyfer nyrsio: .......... 44
3. Cytundeb ffurfiol â chyflogwyr neu Gyflogwyr Llwybr Annibynnol .......... 45

**Atodiad 4: Rhagnodi Anfeddygol ac Ymarfer Clinigol Uwch.......... 47**

1. Rhaglen Broffesiynol Rhagnodi Anfeddygol ac Ymarfer Clinigol Uwch.......... 47
2. Gofynion mynediad penodol ar gyfer y rhaglenni hyn.......... 48

**Atodiad 5: TAR (Cymru).......... 48**

1. Rhaglen TAR (Cymru) .......... 48
2. Gofynion mynediad penodol ar gyfer y rhaglen hon: .......... 49
3. Cytundeb ffurfiol ag Ysgolion Partner Arweiniol ac Ail Ysgolion.......... 50

**Atodiad 6: Plismona.......... 51**

1. Rhaglenni Plismona.......... 51
2. Cyfansoddiad y Panel Adolygu .......... 51
3. Gofynion mynediad penodol ar gyfer y rhaglenni hyn.......... 52
4. Cytundeb ffurfiol â chyflogwyr.......... 52

**Atodiad 7: Cwnsela .......... 54**

## Fformat Amgen

Os oes angen y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer hon arnoch mewn fformat angen, Cysylltwch â Ni (ewch i www.open.ac.uk/contact), ffoniwch ni ar +44 (0)300 303 5303), neu cysylltwch â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr dynodedig drwy StudentHome os ydych yn astudio gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd. Os ydych yn dilyn Prentisiaeth, cysylltwch â'r Tîm Cymorth ac Ymrestru ar Brentisiaeth drwy e-bostio apprenticeships@open.ac.uk neu ffonio (+44 (0) 300 303 4121). Gall Myfyrwyr a Dysgwyr Cymraeg siarad â chynghorydd cymorth myfyrwyr yn Gymraeg drwy ffonio +44 (0) 29 2047 1170.

## Ynglŷn â'r Weithdrefn hon

Mae'r weithdrefn hon yn cael ei dilyn ar raglenni proffesiynol a lywodraethir gan Gorff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddio neu gorff cwnsela proffesiynol ar gyfer y Rhaglen Cwnsela.  Mae'n disgrifio:

- prosesau y byddwn yn eu dilyn i sicrhau eich bod yn gymwys i gofrestru, o ran eich cymhwyster gyda'r Brifysgol Agored ac unrhyw gofrestriad â chorff proffesiynol neu reoleiddio sy'n ofynnol.
- y broses ar gyfer ymateb i honiad neu bryder ynghylch addasrwydd myfyriwr i ymarfer.
- sut rydym yn sicrhau yr ymchwilir i faterion ac y cânt eu hasesu'n gyflym, yn deg ac yn systemataidd.

Mae rhestr o Ddiffiniadau wedi'i chynnwys i esbonio unrhyw dermau a all fod yn anghyfarwydd i chi. Drwy'r ddogfen hon, mae ‘ni’ neu ‘ein’ yn cyfeirio at Y Brifysgol Agored. Mae ‘chi’ yn cyfeirio atoch chi fel y Myfyriwr.

## Cwmpas

### Yr hyn y mae'r weithdrefn hon yn ei gwmpasu

- Mae'r weithdrefn hon yn cwmpasu ymgeiswyr a myfyrwyr cymwysterau lle mae angen cofrestriad â Chorff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddio er mwyn ymarfer proffesiwn. Mae hefyd yn cwmpasu ymgeiswyr a myfyrwyr ar y Rhaglen Cwnsela, sy'n aelodau o gyrff cwnsela proffesiynol, ac wedi'u cofrestru â'u Cofrestr Wirfoddol Achredig.
- Mae'r weithdrefn yn cynnwys myfyrwyr sy'n astudio cymwysterau sy'n gofyn am god moeseg neu ddogfennau safonau proffesiynol eraill a gyhoeddwyd gan gorff proffesiynol, statudol neu reoleiddio, neu ar gyfer y Rhaglen Cwnsela, mae'n cynnwys myfyrwyr lle mae'r canllawiau moesegol neu broffesiynol wedi'u cyhoeddi gan gyrff cwnsela proffesiynol (gweler Atodiad 7 am restr i gyrff cwnsela).
- Caiff myfyrwyr israddedig, ôl-raddedig, myfyrwyr ar leoliadau seiliedig ar waith a dysgwyr ar brentisiaethau eu cynnwys.
- Ceir rhestr lawn o'r cymwysterau a gwmpesir yn yr atodiadau canlynol:
  - Atodiad 1 Amserlen enghreifftiol ar gyfer Cyfarfod Adolygu
  - Atodiad 2 Gwaith Cymdeithasol
  - Atodiad 3 Nyrsio
  - Atodiad 4 Rhagnodi Anfeddygol ac Ymarfer Clinigol Uwch
  - Atodiad 5 TAR (Cymru)
  - Atodiad 6 Plismona
  - Atodiad 7 Cwnsela
- Rydych yn Fyfyriwr neu'n Ddysgwr gyda'r Brifysgol Agored os ydych:
  - wedi cofrestru ar gyfer cymhwyster neu fodiwl ar hyn o bryd,
  - wedi astudio modiwl yn ystod y ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf.

## Yr hyn nad yw'r weithdrefn hon yn ei gwmpasu

Nid yw'r weithdrefn hon yn gymwys i chi:

- os ydych yn astudio tuag at gymhwyster lle nad yw'n ofynnol i chi gofrestru â chorff proffesiynol, statudol neu reoleiddio neu os ydych yn ymgeisydd ar y Rhaglen Cwnsela ac nad ydych yn aelod o gorff cwnsela proffesiynol nac wedi'ch cofrestru â Chofrestr Wirfoddol Achrededig a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol.
- os nad ydych yn astudio i ymarfer proffesiwn sy'n dilyn Cod Moeseg corff proffesiynol, statudol neu reoleiddio neu ddogfennau safonau proffesiynol eraill.
- os nad ydych yn fyfyriwr gyda'r Brifysgol Agored eto.
- os ydych yn astudio tuag at un o Fircrogymwysterau'r Brifysgol Agored.
- os ydych yn astudio gyda sefydliad partner a ddilyswyd tuag at gymhwyster nad yw'n gymhwyster gan Y Brifysgol Agored. Dylai myfyrwyr partneriaethau a ddilyswyd gyfeirio at weithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer y sefydliad partner.

Gall myfyrwyr sy'n astudio tuag at gymwysterau lle mae eu haddasrwydd neu eu haddasrwydd i ymarfer yn cael ei asesu drwy elfennau seiliedig ar waith eu rhaglen fod yn ddarostyngedig i delerau cytundebau ysgrifenedig eraill rhwng Y Brifysgol Agored a'u cyflogwr, Cyflogwr Llwybr Annibynnol, noddwr neu ddarparwr cyfle ymarfer dysgu.

Mae'r Brifysgol Agored yn cadw'r hawl i ddilyn polisïau priodol ychwanegol fel y Cod Ymarfer ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr, y polisi Addasrwydd i Astudio, y polisi Ymddygiad Academaidd neu unrhyw bolisi arall i fyfyrwyr Y Brifysgol Agored a restrir ar y dudalen Polisiau a Rheoliadau Myfyrwyr.

Os nad ydych yn siŵr a yw'r weithdrefn hon yn gymwys i chi, cysylltwch â'r tîm Polisi a Chydymffurfiaeth Myfyrwyr drwy e-bostio student-policy-compliance@open.ac.uk.

I gael canllawiau penodol ar sut y gall y weithdrefn hon fod yn berthnasol i'ch amgylchiadau personol, cysylltwch â'r Swyddfa Gwaith Achos Myfyrwyr. Darperir manylion cyswllt yn yr adran Cymorth a Gwybodaeth o'r weithdrefn hon.

# Cymorth a Gwybodaeth

## Sut i gysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am gynnwys y ddogfen a sut i'w ddehongli, Cysylltwch â Ni. I gadarnhau manylion cyswllt Y Brifysgol Agored, gweler Swyddfeydd Y Brifysgol Agored. Os ydych yn dilyn Prentisiaeth, cysylltwch â'r Tîm Cymorth ac Ymrestru ar Brentisiaeth drwy e-bostio apprenticeships@open.ac.uk neu ffonio (+44 (0) 300 303 4121). Gall Myfyrwyr a Dysgwyr Cymraeg siarad â chynghorydd cymorth myfyrwyr yn Gymraeg drwy ffonio +44 (0) 29 2047 1170.

# Y weithdrefn

## 1. Diben

1.1 Mae'r Brifysgol Agored yn gyfrifol am gadarnhau eich addasrwydd proffesiynol neu eich addasrwydd i ymarfer ar gyfer hyfforddiant ac addysg, cofrestriad a/neu gyflogaeth gyda Chorff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddio neu, yn achos Cwnsela, gyda chyrff cwnsela proffesiynol a'r Gofrestr Wirfoddol Achrededig [a weinyddir gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol].

1.2 Mae addasrwydd i ymarfer yn golygu eich gallu i gyrraedd safonau proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys eich cymeriad, eich cymhwysedd proffesiynol a'ch iechyd.

1.3 Bydd cymorth a rheolaeth i fyfyrwyr yn dechrau pan fyddwn yn cael pryderon cychwynnol mewn perthynas â'ch cymeriad, eich cymhwysedd proffesiynol, eich iechyd neu eich ymddygiad academaidd.

1.4 Bwriedir i'r weithdrefn fod yn drylwyr ac yn deg i ddefnyddwyr gwasanaethau, cleifion a chleientiaid, gofalwyr, myfyrwyr, dysgwyr, noddwyr, cyflogwyr, Cyflogwyr Llwybr Annibynnol, a darparwyr cyfleoedd ymarfer dysgu.

## 2. Egwyddorion y Weithdrefn

2.1 Mae rolau yn y proffesiynau a gwmpesir gan y weithdrefn hon yn heriol ac yn cynnwys lefel uchel o gyfrifoldeb, ac mae angen y gallu i weithio'n ddiogel gydag unigolion a grwpiau mewn sefyllfaoedd bregus. Mae gan gyrff statudol, proffesiynol a rheoleiddio perthnasol godau ymarfer a pholisïau a gweithdrefnau eraill sy'n nodi'r safonau ar gyfer ymddygiad ac ymarfer proffesiynol.

Yn achos Cwnsela, cânt eu gosod gan y cyrff cwnsela proffesiynol y mae'r myfyrwyr wedi cofrestru â nhw. Mae'n ofynnol i bob ymarferydd proffesiynol yn y priod ddisgyblaeth gynnal y safonau hyn. Mae'r dogfennau perthnasol a gyhoeddwyd gan gyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddio wedi'u nodi yn yr Atodiadau i'r ddogfen hon.

2.2 Mae'n ofynnol i'r Brifysgol sicrhau bod myfyrwyr ac ymgeiswyr ar bob rhaglen broffesiynol dan sylw yn addas i ymarfer. Nid yw'r cyfrifoldeb hwn yn dibynnu ar y gofyniad i gofrestru â'r rheoleiddiwr proffesiynol fel myfyriwr.

2.2.1 Ar gyfer Gwaith Cymdeithasol, bydd myfyrwyr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cofrestru fel myfyrwyr â Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban (SSC) neu Gyngor Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Iwerddon (NISCC) ar yr adeg y byddant yn dechrau eu hastudiaethau. Yn Lloegr, byddant yn gymwys i gofrestru â Social Work England (SWE) ar yr adeg y dyfernir y cymhwyster iddynt.

2.2.2 Ar gyfer Nyrsio, bydd Y Brifysgol Agored yn llunio barn ac yn llofnodi datganiad iechyd a chymeriad da ar gyfer ymgeiswyr cyn iddynt gofrestru, yn ogystal â lanlwytho data llwyddiant i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) ar ôl iddynt gwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus.

2.2.3 Ar gyfer Rhagnodi Anfeddygol, er mwyn ymrestru, mae'n ofynnol i bob myfyriwr ar y rhaglen fod wedi'u cofrestru â'r corff proffesiynol, statudol neu reoleiddio priodol, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

2.2.4 Ar gyfer TAR (Cymru), bydd angen i fyfyrwyr ar y llwybr cyflogedig gofrestru â'r Corff Rheoleiddio (Cyngor y Gweithlu Addysg, CGA) fel gweithiwr Cymorth Dysgu Ysgol cyn iddynt ddechrau eu rhaglen TAR, a bydd angen iddynt gydymffurfio â Chod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol CGA. Codir ffi am gofrestru â CGA. Ar ôl ennill cymhwyster TAR (Cymru) yn llwyddiannus, bydd Y Brifysgol Agored yn argymell i Gyngor y Gweithlu Addysg y dylid dyfarnu Statws Athro Cymwysedig (SAC).

Nid yw'n ofynnol i fyfyrwyr TAR (Cymru) ar y llwybr anghyflogedig gofrestru â CGA pan fyddant ar y rhaglen. Fodd bynnag, os byddwch wedi'ch cyflogi mewn ysgol wrth astudio ar y llwybr anghyflogedig, yna bydd angen i chi gofrestru â CGA ar gyfer eich rôl yn eich ysgol. Trafodwch hyn â'ch cyflogwr os bydd gennych unrhyw ymholiadau.

2.2.5 Ar gyfer Plismona, mater i'r heddlu yw penderfynu a yw myfyrwyr yn addas i ymarfer. Mae gan Y Brifysgol Agored rwymedigaeth i rannu unrhyw faterion Addasrwydd i Ymarfer a godir yn ystod eu cyfnod astudio.

2.2.6 Ar gyfer Cwnsela, byddai myfyrwyr eisoes wedi cwblhau cymhwyster lefel 4 allanol mewn cwnsela, sy'n cwmpasu cymwyseddau/gofynion ‘Therapydd A’ fframwaith SCoPEd, o leiaf. Byddai'r myfyrwyr hyn hefyd wedi cofrestru â chyrff cwnsela proffesiynol ac yn aelodau ohonynt. Mae'r fframweithiau moesegol y manylir arnynt yn Atodiad 7 yn ymdrin â materion Cwnsela a all godi pryderon.

2.3 Wrth wneud cais i gofrestru fel myfyriwr â'r Brifysgol Agored, rydych yn cytuno i gadw at y cod ymarfer neu'r moesau perthnasol ar gyfer eich rhaglen broffesiynol, y manylir arnynt yn yr Atodiadau i'r weithdrefn hon, yn ogystal â'r Amodau Cofrestru ar gyfer myfyrwyr ar gyrsiau a addysgir, Amodau Cofrestru (Prentisiaid), neu'r Amodau Cofrestru ar gyfer Rhaglenni Plismona ac unrhyw gytundebau ychwanegol perthnasol ar gyfer eich rhaglen broffesiynol.

2.4 Os na fyddwch yn cyrraedd y safonau proffesiynol gofynnol, neu os bydd eich ymddygiad, eich cymeriad neu eich iechyd yn awgrymu nad ydych yn addas.

- Gall corff rheoleiddio eich proffesiwn dynnu eich cofrestriad fel myfyriwr yn ôl.
- Gall Y Brifysgol Agored wrthod eich argymell i gofrestru ar gyfer y proffesiwn hwnnw.

2.5 Mae staff Y Brifysgol Agored, ynghyd â noddwyr, cyflogwyr neu Gyflogwyr Llwybr Annibynnol, yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch eich addasrwydd i ymrestru ar raglenni proffesiynol a pharhau i astudio tuag atynt, yn ogystal â'ch addasrwydd neu'ch addasrwydd i ymarfer fel gweithiwr proffesiynol ar ddiwedd eich hyfforddiant. Felly, mae'n hanfodol eich bod chi a'ch noddwyr, eich cyflogwyr, eich Cyflogwyr Llwybr Annibynnol neu ddarparwyr eich lleoliadau (lle y bo'n berthnasol) yn rhannu gwybodaeth lawn a chyfredol am unrhyw ymddygiad sy'n peri pryder.

2.6 Mae'r weithdrefn hon yn ein galluogi i ystyried eich addasrwydd i ymarfer mewn perthynas â'ch cymhwysedd academaidd a phroffesiynol.

## 3. Cytundebau ysgrifenedig

3.1 Un o amodau cael eich derbyn ar raglenni proffesiynol yw eich bod naill ai:

- yn cael eich cefnogi, eich noddi neu eich cyflogi gan gyflogwr cydnabyddedig, a bod y cyflogwr hwnnw'n llofnodi cytundeb ysgrifenedig ar gyfer pob myfyriwr neu garfan o fyfyrwyr y bydd yn ei gofrestru/chofrestru.
- ar gontract anrhydeddus gyda'ch Cyflogwr Llwybr Annibynnol, a bod y Cyflogwr Llwybr Annibynnol hwnnw'n llofnodi cytundeb ysgrifenedig ar gyfer pob myfyriwr neu garfan o fyfyrwyr y bydd yn ei gofrestru/chofrestru.

Mae'r cytundebau hyn yn nodi cyfrifoldebau pob parti, yn cynnwys cyfrifoldeb am fynd i'r afael â materion addasrwydd i ymarfer. Bydd y cytundeb ysgrifenedig yn nodi pwy sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â materion addasrwydd i ymarfer sy'n codi mewn perthynas â'ch astudiaethau, eich lleoliadau gwaith neu faterion eraill sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.

3.2 Bydd cyflogwyr, noddwyr, neu Gyflogwyr Llwybr Annibynnol a darparwyr lleoliadau yn cael copi o'r weithdrefn hon a bydd y cytundeb ysgrifenedig yn nodi a ydynt wedi cytuno i ddull gweithredu'r Brifysgol Agored o ymdrin ag addasrwydd ac addasrwydd i ymarfer. Os cytunir ar hyn a bod achos pryder yn codi yn ystod yr ymarfer, byddant yn hysbysu'r Brifysgol Agored ar unwaith, yn ogystal â rhoi eu gweithdrefnau eu hunain ar waith, neu ochr yn ochr â hynny. Bwriedir i'r weithdrefn hon fod yn ddull gweithredu i'ch helpu i ddod yn aelod cymwys y gellir ymddiried ynddo o'ch proffesiwn dewisol ac yn gyflogai rhagorol.

3.3 Bydd y cytundeb ysgrifenedig hefyd yn nodi'r ffordd y bydd pob parti yn rhannu gwybodaeth neu dystiolaeth berthnasol am faterion yn ymwneud â'ch ymddygiad a allai effeithio ar eich addasrwydd proffesiynol neu eich addasrwydd i ymarfer, ac y gall fod ei hangen er mwyn rhoi'r weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer hon ar waith. Gweler Adran 7: "Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth" yn y ddogfen hon sy'n nodi rhagor o wybodaeth am gyfrinachedd a rhannu gwybodaeth.

3.4 Rydych yn cytuno, fel rhan o'ch Amodau Cofrestru ar gyfer myfyrwyr ar gyrsiau a addysgir, Amodau Cofrestru (Prentisiaid), neu'r Amodau Cofrestru ar gyfer Rhaglenni Plismona ac unrhyw Gytundeb Atodol ar gyfer eich rhaglen broffesiynol (os yw'n berthnasol), y gellir rhannu eich gwybodaeth bersonol rhwng eich cyflogwr, eich noddwr, eich Cyflogwr Llwybr Annibynnol neu ddarparwr eich lleoliad a'r Brifysgol Agored, a bod gennych gyfrifoldeb personol i hysbysu'r rhaglen am unrhyw fater ymddygiad sy'n peri pryder o ran addasrwydd neu addasrwydd i ymarfer. Caiff hyn ei atgyfnerthu yn neunyddiau'r modiwl a/neu'r Canllaw ar Ymarfer Dysgu, er mwyn sicrhau eich bod yn gwbl ymwybodol o ddisgwyliadau'r Brifysgol Agored a'r cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio perthnasol, neu'r cyrff cwnsela proffesiynol ar gyfer rhaglenni Cwnsela, ohonoch. Nodir y broses o rannu data personol yn fanylach yn yr Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfyrwyr.

# 4. Gweithredu a gorfodi'r weithdrefn

4.1 Pan fyddwch yn ddarostyngedig i weithdrefnau gweithle ac wedi apelio, naill ai i'ch cyflogwr neu Gyflogwr Llwybr Annibynnol (fel sy'n gymwys) neu dribiwnlys cyflogaeth, neu os byddwch yn destun ymchwiliad troseddol, caiff yr Ymchwiliad Addasrwydd i Ymarfer ei atal hyd nes y daw'r achos i ben. Gall hyn olygu y byddwch yn cael eich gwahardd dros dro rhag parhau i astudio yn ystod y cyfnod hwnnw.

### 4.1.1 Codi pryderon

Gallai ymddygiadau a all godi pryderon gynnwys y canlynol. **Cyfeiriwch at safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol eich corff proffesiynol, statudol neu reoleiddio – ymdrinnir â hyn fel arfer yn ei God Ymddygiad.**

**a. Cymeriad:**

- Euogfarn neu rybudd am dwyll, dwyn, trais, trosedd rywiol, delio mewn cyffuriau neu feddwdod.
- Achosion o gyrchu deunydd anghyfreithlon ar y rhyngrwyd.
- Anonestrwydd, yn cynnwys ffugio cofnodion astudio neu ymarfer.
- Gellid ystyried bod achosion difrifol neu fynych o gamymddwyn academaidd yn peri goblygiadau o ran ymarfer proffesiynol os canfyddir eu bod yn dangos anonestrwydd neu ddiffyg uniondeb.
- Defnydd amhriodol difrifol o'r cyfryngau cymdeithasol.

b. **Salwch difrifol:**

- Cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor, heb eu trin/heb eu rheoli neu heb eu cydnabod a fyddai'n amharu ar ymarfer proffesiynol. Bydd Y Brifysgol Agored yn rhoi'r holl addasiadau rhesymol ar waith i gefnogi myfyrwyr sydd wedi datgan bod ganddynt anableddau neu gyflyrau hirdymor er mwyn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, rheoliadau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2004 ac Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998, neu unrhyw ddyletswydd neu rwymedigaeth arall.
- Dibyniaeth hirdymor heb ei thrin ar alcohol neu gyffuriau sydd.

c. **Camymddwyn:**

- Cam-drin cleifion/defnyddwyr gwasanaethau/gofalwyr, cydweithwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn gorfforol neu'n eiriol.
- Dwyn wrth weithio.
- Methiant i ddarparu gofal digonol.
- Methiant sylweddol i gadw cofnodion priodol (a bennir drwy asesiad risg).
- Methiant i ddilyn cod gwisg.
- Defnydd amhriodol o ffonau symudol.
- Lefelau gwael o brydlondeb a phresenoldeb.

d. **Diffyg cymhwysedd yn y proffesiwn dan sylw:**

- Diffyg sgiliau neu wybodaeth.
- Barn wael, yn cynnwys methiant i ddeall pan fydd ei ymarfer proffesiynol wedi gostwng islaw'r safonau disgwyliedig.
- Analluog i weithio fel rhan o dîm.

- Anhawster neu fethiant i gyfathrebu â chydweithwyr neu bobl yn ei ofal.
- Achosion o dorri rheolau iechyd a diogelwch.
- Achosion o dorri cyfrinachedd.

4.1.2 Gall materion gael eu codi gennych chi (fel y Myfyriwr neu'r Dysgwr) neu gan gyflogwyr, noddwyr, Cyflogwyr Llwybr Annibynnol, darparwyr lleoliadau, tiwtoriaid, rhan arall o'r Brifysgol Agored, defnyddiwr gwasanaeth, neu ffynhonnell allanol arall. Gallai'r mater ddeillio o bryderon am eich iechyd neu eich ymddygiad, eich cymhwysedd, digwyddiad neu ymddygiad wrth ymarfer neu y tu allan i'ch astudiaethau neu ymarfer, neu ymddygiad mewn cyd-destun cymdeithasol, yn cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol (yn fewnol neu'n allanol).

4.1.3 Er mwyn rhoi tegwch i ddefnyddwyr gwasanaethau, cleifion, cleientiaid, gofalwyr, myfyrwyr, noddwyr, darparwyr lleoliadau, Cyflogwyr Llwybr Annibynnol a chyflogwyr, mae'n bwysig bod unrhyw bryderon ynghylch eich addasrwydd neu eich addasrwydd i ymarfer yn cael eu codi'n brydlon, ac yr ymchwilir iddynt ac y cânt eu hasesu'n gyflym, yn deg ac yn systemataidd.

4.1.4 Y cam cyntaf yw i'r Brifysgol Agored ymchwilio i'r achos pryder honedig a phenderfynu a yw'n ddigon difrifol i roi'r weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer ar waith, neu a ellir mynd i'r afael â'r pryder drwy eich cefnogi a'ch cynghori.

- Os bydd y pryder a godwyd yn cynnwys mân faterion cymhwysedd, byddwch yn cael cyfle i wella eich ymarfer ac yn cael cynllun gweithredu gydag amserlenni cyfatebol ar gyfer sicrhau gwelliant. Mae hyn yn gymwys i agweddau ac academaidd ac anacademaidd o'ch dysgu.
- Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r cynllun gweithredu, gellir atgyfeirio'r achos at y panel Addasrwydd i Ymarfer a/neu gallech fod yn destun gweithdrefnau disgyblu, fel y nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr.

4.1.5 Bydd yr ystyriaeth gyffredinol a roddir i faterion addasrwydd i ymarfer yn ystyried faint o gynnydd rydych wedi'i wneud yn eich astudiaethau a'r disgwyliadau rhesymol sydd arnoch ar y cam hwn o'ch datblygiad.

## 4.2 Cam ymchwilio

4.2.1 Pan gaiff pryder ei godi, caiff hyn ei gofnodi ar eich cofnod myfyriwr. Er mwyn osgoi rhagfarn tuag at yr achos, ni chaiff unrhyw fanylion eraill eu cofnodi ar eich cofnod myfyriwr ar y cam hwn.

4.2.2 Byddwn yn penodi aelod addas o staff i ymchwilio i'r pryder.

4.2.3 Bydd y person sy'n ymchwilio yn cysylltu â chi yn ysgrifenedig i'ch hysbysu am y pryder, a chewch eich gwahodd i ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith.

4.2.4 Bydd y person sy'n ymchwilio yn cysylltu â phob parti priodol i gasglu gwybodaeth berthnasol er mwyn llywio'r asesiad risg a llunio adroddiad asesu risg. Dim ond mewn perthynas â'r pryder a godwyd y bydd unrhyw dystiolaeth a gesglir ac ni chaiff ymchwiliad ehangach ei gwblhau ar y cam hwn.

**Panel Ymchwilio**

4.2.5 O fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl i'r pryder ddod i law, caiff Panel Ymchwilio ei gynnull i ystyried yr adroddiad asesu risg. Ni fydd y person a luniodd yr adroddiad asesu risg yn rhan o'r Panel Ymchwilio.

**Myfyrwyr Nyrsio**

- Caiff aelodau'r Panel Ymchwilio eu dethol o'r Grŵp Addasrwydd i Ymarfer Arbenigol sy'n cynnwys academyddion cymwysedig yn y ddisgyblaeth honno

**Myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol**

- Caiff aelodau'r Panel Ymchwilio eu dethol o'r Grŵp Addasrwydd i Ymarfer Arbenigol sy'n cynnwys academyddion cymwysedig yn y ddisgyblaeth honno.

**Myfyrwyr Ymarfer Clinigol Uwch**

- Bydd y Panel yn cynnwys y person sy'n gyfrifol am eich achos ac un aelod arall o'r staff academaidd.

**Myfyrwyr TAR Cymru, Myfyrwyr Plismona a Myfyrwyr Cwnsela:**

- Bydd y person a ymchwiliodd i'r pryder yn cyfarfod â'r Uwch-awdurdod ar gyfer eich achos ac o leiaf un aelod arall o'r staff academaidd i ffurfio Panel.

**Egwyddorion Allweddol y Panel Ymchwilio**

a. Bydd o leiaf un aelod o'r Panel Ymchwilio yn weithiwr proffesiynol sy'n arbenigo ym maes eich rhaglen.

b. Bydd gan bawb sy'n rhan o'r Panel Ymchwilio brofiad priodol a gofynnir iddynt a ydynt wedi cael unrhyw gyswllt â chi yn y gorffennol ac, os felly, o dan ba amgylchiadau, er mwyn sicrhau didueddrwydd.

c. Gall Y Brifysgol Agored wahodd staff o sefydliadau eraill, cyn-fyfyrwyr neu bobl berthnasol eraill er mwyn cwmpasu meysydd arbenigedd penodol.

d. Bydd y Brifysgol yn ceisio sicrhau bod aelodau'r panel yn adlewyrchu amrywiaeth y corff o fyfyrwyr.

4.2.6 Bydd y Panel Ymchwilio yn penderfynu:

- a oes tystiolaeth i gefnogi achos pryder
- a yw'r pryder yn gwarantu camau pellach

4.2.7 Caiff unrhyw benderfyniad ynghylch a yw pryder yn sylweddol ac wedi'i gefnogi'n ddigonol gan dystiolaeth ei wneud gan y canlynol:

- Ar gyfer Nyrsio, y Grŵp Addasrwydd i Ymarfer Arbenigol
- Ar gyfer Gwaith Cymdeithasol, y Grŵp Addasrwydd i Ymarfer Arbenigol

- Ar gyfer Ymarfer Clinigol Uwch, yr Uwch-awdurdod ar gyfer eich achos ac uwch-aelodau eraill o'r staff
- Ar gyfer TAR Cymru, yr Uwch-awdurdod ar gyfer eich achos ac uwch-aelodau eraill o'r staff
- Ar gyfer Plismona, yr Uwch-awdurdod ar gyfer eich achos ac uwch-aelodau eraill o'r staff
- Ar gyfer Cwnsela, yr Uwch-awdurdod ar gyfer eich achos ac uwch-aelodau eraill o'r staff.

Dim ond argymhelliad y gall y person a ymchwiliodd i'r pryder ei wneud, a gaiff ei ddogfennu, ac ni all fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniad.

4.2.8 Cewch wybod pryd y gallwch ddisgwyl clywed canlyniad yr ymchwiliad. Os bydd angen mwy na 15 diwrnod gwaith arnom i gwblhau'r ymchwiliad, cewch wybod pryd y gallwch ddisgwyl cael penderfyniad.

### 4.3 Canlyniadau pan ddaw pryder i law neu ganlyniadau'r cam ymchwilio

#### 4.3.1 Dim camau pellach:

a. Ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwiliad, os bydd y person a ymchwiliodd i'r pryder yn penderfynu nad oes unrhyw dystiolaeth na sylwedd i'r atgyfeiriad, er enghraifft bod y pryder yn ddibwys, yn honiad maleisus nad yw'n wir, neu'n honiad a wnaed ar gam, yna dylid hysbysu'r Uwch-awdurdod sy'n rheoli'r achos ac, ar ôl iddo gytuno, caiff y mater ei ollwng, a chewch eich hysbysu am y canlyniad hwn yn ysgrifenedig.

b. Os bydd y Panel Ymchwilio yn penderfynu y gall y mater fod yn fater disgyblu ond nad ystyrir ei fod yn effeithio ar addasrwydd i ymarfer, yna dylid penderfynu nad oes achos i'w ateb yn y broses Addasrwydd i Ymarfer. Ceir manylion ym mharagraff 4.3.5, 'Atgyfeiriad at lwybr disgyblu neu weithdrefnol arall'. Os caiff pryder ei godi ond nad ystyrir ei fod wedi'i brofi, yna gellir eich hysbysu nad oes achos i'w ateb.

#### 4.3.2 Cymorth ychwanegol:

a. Os caiff pryder ei godi ond nad ystyrir ei fod wedi'i brofi, gellir argymell camau y dylech eu cymryd i wella eich ymarfer proffesiynol, er enghraifft sesiynau cymorth. Gall yr argymhelliad hwn gynnwys cymorth ychwanegol gan eich cyflogwr, eich noddwr, eich Cyflogwr Llwybr Annibynnol neu ddarparwr eich lleoliad.

b. Caiff y canlyniad hwn ei gofnodi ar eich cofnod myfyriwr a chewch eich hysbysu am y canlyniad yn ysgrifenedig. Os bydd y pryder wedi codi wrth ymarfer, yna caiff darparwr y lleoliad, eich cyflogwr, eich Cyflogwr Llwybr Annibynnol neu eich noddwr ei hysbysu am y penderfyniad.

#### 4.3.3 Camau gweithredu a argymhellir:

a. Os bydd y pryder wedi'i brofi ond nad ystyrir ei fod yn ddigon sylweddol i warantu Cyfarfod Adolygu llawn, gellir penderfynu y bydd angen i chi gymryd camau pellach a argymhellir er mwyn sicrhau eich bod yn deall goblygiadau'r pryder a godwyd. Gall hyn gynnwys ymgymryd â darn o waith myfyriol er mwyn dangos eich bod yn deall bod eich gweithredoedd yn annerbyniol; goruchwyliaeth ychwanegol neu ailadrodd profiad ymarfer dysgu.

b. Caiff unrhyw gamau a argymhellir eu cofnodi ar eich cofnod myfyriwr, yna cânt eu rhannu â'ch noddwr/eich cyflogwr/eich Cyflogwr Llwybr Annibynnol/darparwr eich lleoliad er mwyn cytuno arnynt. Mewn achosion penodol, gall fod angen trefnu darparwr lleoliad gwahanol. Bydd Y Brifysgol Agored yn sicrhau y gwneir hyn yn unol â phenderfyniadau a wnaed yn eich achos.

c. Os na fydd lleoliad arall ar gael neu os na fydd eich rhaglen yn cynnig y cyfle hwn (er enghraifft, Plismona), bydd Y Brifysgol Agored yn trafod â chi yr opsiwn o gael eich trosglwyddo i gwrs arall neu'r cymwysterau ymadael a allai fod ar gael i chi.

#### 4.3.4 Gwahardd dros dro:

a. Pan fydd pryder wedi'i godi, wedi'i brofi, ac yn ddigon sylweddol i gael effaith bosibl ar eich gallu i barhau i astudio ar y rhaglen neu ymarfer yn broffesiynol, yna mae sawl opsiwn ar gael.

Gall yr asesiad risg fod wedi dangos bod y pryder yn ddifrifol ac yn uniongyrchol, ac efallai y bydd angen i chi gael eich gwahardd dros dro rhag ymarfer yn broffesiynol, fel y disgrifir yn Adran 4.6: "Gwaharddiad dros dro tra bydd canlyniad yr achos yn yr arfaeth".

#### 4.3.5 Atgyfeiriad at lwybr disgyblu neu weithdrefnol arall:

a. Ym marn y Panel Ymchwilio, os bydd y pryder yn fater disgyblu i'r Brifysgol Agored yn hytrach nag yn un sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer, neu'n ogystal â phryder o'r fath, gellir atgyfeirio'r mater at y Cod Ymarfer ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr neu un o bolisïau neu weithdrefnau eraill Y Brifysgol Agored. Gall yr atgyfeiriad hwn ddigwydd naill ai ar ôl canlyniad ymchwiliad addasrwydd i ymarfer neu ochr yn ochr ag ymchwiliad o'r fath. Ar rai adegau, gall fod yn fwy priodol i'r ymchwiliad addasrwydd i ymarfer gael ei ohirio dros dro er mwyn aros am ganlyniad prosesau neu weithdrefnau polisi eraill.

b. Os bydd y Panel Ymchwilio yn penderfynu y gall y mater fod yn fater disgyblu ond nad ystyrir ei fod yn effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer, yna dylid penderfynu nad oes achos i'w ateb yn y weithdrefn hon, fel ym mharagraff 4.3.1, ond gellir eich hysbysu bod y mater yn cael ei drosglwyddo i'r awdurdod disgyblu priodol fel y nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr i'w ystyried.

4.3.6 Cewch eich hysbysu am unrhyw ganlyniad yn ysgrifenedig a chaiff hyn ei gofnodi ar eich cofnod myfyriwr. Bydd y llythyr yn crynhoi'r ffeithiau, sut mae'r ffeithiau hyn yn sefydlu pryder addasrwydd i ymarfer ai peidio, y penderfyniad(au) terfynol a, lle y bo'n briodol, unrhyw amodau monitro a threfniadau adolygu. Os caiff y rhain eu cwblhau'n foddhaol yna caiff hyn ei gofnodi ar eich cofnod myfyriwr a chewch eich hysbysu yn

ysgrifenedig na chymerir unrhyw gamau pellach, oni fydd achos pryder newydd.

4.3.7 Mae gennych yr hawl i apelio fel y nodir yn Adran 5: “Hawl i Apelio”.

### 4.4 Cyfarfod Adolygu

4.4.1 Os canfyddir pryder difrifol yn ystod y cam Ymchwilio, bydd yr achos yn symud ymlaen i'r cam Cyfarfod Adolygu. Os bydd y pryder yn deillio o ddigwyddiad allanol fel euogfarn, fel arfer bydd yr achos yn symud ymlaen yn syth i gam y Cyfarfod Adolygu.

Caiff uwch-aelod o'r staff sydd wedi cael hyfforddiant penodol gan Y Brifysgol Agored mewn perthynas ag ymchwilio ei enwebu gan Gadeirydd yr Uwch-awdurdod fel pwynt cyswllt ar gyfer yr achos. Nid oes angen i'r unigolyn hwn a enwebwyd fod yn aelod o'r staff academaidd ond bydd yn gyfrifol am sicrhau y cedwir at yr amserlen gywir; am fod yn gyswllt i chi ac am weithredu fel ysgrifennydd ar gyfer y cyfarfod. Am enghraifft o amserlen Cyfarfod Adolygu, gweler Atodiad 1: "Amserlen enghreifftiol ar gyfer Cyfarfod Adolygu”.

4.4.2 Mae'r Cyfarfod Adolygu yn gyfarfod panel ffurfiol a fydd yn ystyried yr asesiad risg a'r dystiolaeth a gasglwyd yn y cam ymchwilio. Caiff cyfansoddiad y panel ffurfiol ei bennu yn unol â'r rhaglen broffesiynol rydych yn ei hastudio a chaiff ei nodi yn yr atodiad priodol ar gyfer y rhaglen honno. Bydd pob panel yn cynnwys un neu fwy o gynrychiolwyr myfyrwyr presennol neu gyn-fyfyrwyr o'ch rhaglen broffesiynol.

4.4.3 Cewch eich hysbysu yn ysgrifenedig am y penderfyniad i fynd â'r achos i Gyfarfod Adolygu, y mater(ion) a arweiniodd at y pryder hwn, pryd y caiff y Cyfarfod Adolygu ei gynnal, a manylion yr unigolyn a enwebwyd fel eich cyswllt. Gall panel y Cyfarfod Adolygu ystyried yr achos yn eich absenoldeb neu os na fyddwch yn ymateb, ond byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau eich bod wedi cael y cyfle i weld y dystiolaeth a gyflwynwyd ac ymateb iddi, naill ai'n ysgrifenedig neu yn bersonol.

4.4.4 Pan gewch eich hysbysu am ddyddiad y Cyfarfod Adolygu, cewch wybod pwy fydd aelodau panel y Cyfarfod Adolygu. Bydd pawb sy'n rhan o'r Panel Adolygu wedi cael hyfforddiant priodol a gofynnir iddynt a ydynt wedi cael unrhyw gyswllt â chi yn y gorffennol ac, os felly, o dan ba amgylchiadau. Cewch eich hysbysu am gyfansoddiad y Panel Adolygu yn ysgrifenedig ymlaen llaw a chyfle i wrthwynebu unrhyw un o aelodau'r Panel. Gofynnir i chi roi rhesymau dros eich gwrthwynebiad a bydd yr unigolyn a enwebwyd yn gwneud yr addasiadau angenrheidiol i gyfansoddiad y Panel, os ystyrir bod eich rhesymau'n dderbyniol.

4.4.5 Byddwch yn cael copïau o'r dogfennau a gaiff eu hystyried gan y Panel. Byddwch yn cael y wybodaeth hon o leiaf ddeg diwrnod gwaith cyn dyddiad y Cyfarfod Adolygu er mwyn eich galluogi i wneud trefniadau i fynychu a/neu ymateb fel y nodir yn yr amserlen. Rhaid i'r panel ystyried unrhyw ymateb neu dystiolaeth a roddir gennych ymlaen llaw neu pan fyddwch yn mynychu'r Cyfarfod Adolygu.

4.4.6 Cewch eich gwahodd i'r Cyfarfod Adolygu i wneud eich cyflwyniad. Cyfarfod ar-lein fydd hwn fel arfer. Gallwch ofyn i gynrychiolydd Undeb neu gynghorydd, a all fod yn gydweithiwr, yn aelod o'r teulu neu'n ffrind, fod yn bresennol.

4.4.7 Os byddai o fudd i chi gael rhywun i gyfathrebu ar eich rhan – sef yr hyn rydym yn ei alw'n Eiriolwr – gallwch gael rhagor o wybodaeth yn Eirioli: canllawiau a gweithdrefn. Rôl Eiriolwr yw eich helpu i gyfathrebu'n annibynnol a gwneud penderfyniadau hyddysg ynglŷn â'ch astudiaethau.

4.4.8 Cewch gyfle i ofyn am i'r Cyfarfod Adolygu gael ei ohirio os na allwch fynychu ar y dyddiad cyntaf a awgrymwyd.

4.4.9 Rhaid i'r cais gael ei gefnogi gan dystiolaeth briodol, a gaiff ei hystyried gan Gadeirydd y Panel. Dim ond un achos o ohirio'r cyfarfod y gellir gwneud cais amdano, a chaiff y Cyfarfod Adolygu ei gynnal o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad gwreiddiol a drefnwyd yn y rhan fwyaf o achosion.

4.4.10 Gall aelodau panel y Cyfarfod Adolygu ofyn am ragor o wybodaeth os byddant o'r farn y byddai'n eu helpu i benderfynu ar eich achos. Fodd bynnag, rhaid i chi gael unrhyw ddeunydd neu dystiolaeth bellach a gyflwynwyd o leiaf bum diwrnod gwaith ymlaen llaw hefyd, a gellir gohirio'r Cyfarfod Adolygu os bydd angen, oni fyddwch yn derbyn y cyfnod rhybudd byrrach.

Dim ond yn ôl disgresiwn y Cadeirydd y caiff unrhyw dystiolaeth y gofynnwyd amdani gan aelodau panel y Cyfarfod Adolygu na chafodd ei darparu cyn y cyfarfod, ei hystyried.

4.4.11 Os byddwch chi, neu eich tystion, wedi datgan anabledd sy'n golygu bod angen gwneud unrhyw addasiadau rhesymol, caiff y rhain eu gwneud cyn y Cyfarfod Adolygu er mwyn sicrhau tegwch. Gallwch drafod unrhyw ddarpariaeth sydd ei hangen mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig sy'n sicrhau eich bod yn cael eich trin yn deg o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, neu unrhyw ddyletswydd neu rwymedigaeth statudol arall, â ni cyn eich cyfarfod.  Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw bryderon.

4.4.12 Pan gaiff y Cyfarfod Adolygu ei gynnal, bydd y Cadeirydd yn amlinellu diben y cyfarfod ac yn egluro'r canlyniadau posibl. Os byddwch yn bresennol yn y cyfarfod, cewch eich gwahodd i roi eich ymateb mewn perthynas â'r dystiolaeth a ddarparwyd yn eich erbyn. Ceidw'r panel yr hawl i ofyn rhagor o gwestiynau i chi ar faterion penodol sy'n peri pryder Yna, bydd y Cadeirydd yn dweud wrthych pryd y dylech ddisgwyl clywed canlyniad y cyfarfod, a gofynnir i chi adael.

4.4.13 Ar ddiwedd y Cyfarfod Adolygu, bydd y panel yn ystyried, gan gydbwyso'r tebygolrwydd a'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a ydych wedi mynd yn groes i'ch cod ymarfer proffesiynol perthnasol ac, os felly, bydd yn ystyried eich cam astudio a ph'un a ellir unioni'r mater. Os byddwch wedi datgan anabledd, bydd panel y Cyfarfod Adolygu hefyd yn ystyried a yw'r materion yr ymchwilir iddynt wedi codi'n llwyr neu'n rhannol oherwydd eich anabledd, a ph'un a ydynt wedi codi er gwaethaf addasiadau rhesymol a wnaed.

4.4.14 Bydd y panel yn ystyried amgylchiadau lliniarol a/neu waethygol wrth benderfynu a fu achos o fynd yn groes i safonau proffesiynol. Gallai amgylchiadau lliniarol gynnwys eich bod yn dangos edifeirwch neu ddealltwriaeth; eich bod wedi datgelu salwch sydd bellach yn cael ei drin; neu eich bod wedi darparu tystiolaeth na chafwyd arweiniad proffesiynol priodol ar leoliad. Gallai amgylchiadau gwaethygol gynnwys eich bod yn gwadu bod rhywbeth wedi mynd o chwith neu nad ydych yn dangos unrhyw ddealltwriaeth bod rhywbeth wedi mynd o chwith, neu eich bod eisoes wedi bod drwy gam anffurfiol y weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer, ond bod rhagor o bryderon wedi cael eu codi.

4.4.15 Yna, bydd y panel yn ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd ac yn penderfynu ar y canlyniad.

**4.5 Canlyniadau'r Cyfarfod Adolygu**

4.5.1 Bydd y Panel yn penderfynu a yw'r dystiolaeth yn dangos bod achos o fynd yn groes i'r safonau proffesiynol wedi digwydd neu a yw'r dystiolaeth yn dangos nad oes achos i'w ateb.

4.5.2 Os bydd y Panel wedi cadarnhau bod achos o fynd yn groes i'r safonau wedi digwydd, bydd yn penderfynu a yw'r achos mor ddifrifol fel bod y canlynol yn berthnasol:

- byddwch yn cael eich diarddel o'r rhaglen broffesiynol ar unwaith; neu
- a yw'n fater a fyddai'n golygu, os na fyddwch yn mynd i'r afael ag ef mewn modd boddhaol, na fyddai'r Brifysgol Agored yn hyderus i argymell eich bod yn addas i ymarfer ar ôl cwblhau'r rhaglen broffesiynol; neu
- nad ydych, ar ôl cael cyfle i fynd i'r afael â mater o bryder, wedi gwneud hynny i safon foddhaol ac, o ganlyniad, ei bod yn rhesymol eich diarddel o'r rhaglen broffesiynol.

4.5.3 Os bydd y Panel wedi cadarnhau bod achos o fynd yn groes i'r safonau wedi digwydd, bydd yn penderfynu a yw'r achos mor ddifrifol fel bod y canlynol yn berthnasol:

a. Byddwch yn cael rhybudd anffurfiol.

b. Byddwch yn cael rhybudd ffurfiol, gyda'r gofynion isod neu hebddynt:

- nodi camau penodol y mae'n rhaid i chi eu cymryd i unioni'r mater, erbyn pryd, a sut y caiff hyn ei fonitro;
- bydd yn ofynnol i chi ailadrodd cyfle ymarfer dysgu proffesiynol a'i basio;
- bydd yn ofynnol i chi ailadrodd un neu fwy o fodiwlau.

c. Byddwch yn cael eich diarddel o'r cymhwyster neu'r rhaglen.

4.5.4 Dylech fod yn ymwybodol os caiff eich achos ei atgyfeirio at y Pwyllgor Disgyblu Canolog ar unrhyw adeg, y gallai penderfyniad y Pwyllgor arwain at y canlynol:

- Byddwch yn cael eich atal rhag astudio ar unrhyw raglen seiliedig ar waith gyda'r Brifysgol Agored.
- Byddwch yn cael eich diarddel yn barhaol o'r Brifysgol Agored.

Dim ond os bydd trosedd disgyblu ddifrifol yn ogystal â'r pryder Addasrwydd i Ymarfer y bydd y Pwyllgor yn ystyried y canlyniadau hyn.

4.5.5 Cewch eich hysbysu am benderfyniad terfynol y panel yn ysgrifenedig o fewn 15 diwrnod gwaith. Bydd y llythyr penderfyniad terfynol yn nodi'r ffeithiau a sefydlwyd, y rhesymau dros benderfyniad y panel (gan gyfeirio at y rhan briodol o'r cod neu ganllawiau proffesiynol) a pha ganlyniad y mae'r panel wedi'i gymhwyso, yn cynnwys unrhyw gyfyngiadau a osodir arnoch neu dasgau ychwanegol y bydd yn ofynnol i chi eu cyflawni.

4.5.6 Bydd darparwr eich lleoliad, eich cyflogwr, eich Cyflogwr Llwybr Annibynnol neu eich noddwr yn cael manylion y penderfyniad terfynol.

4.5.7 Os bydd eich cyflogwr/eich noddwr/eich Cyflogwr Llwybr Annibynnol/darparwr eich lleoliad wedi eich gwahardd dros dro ond na fydd Y Brifysgol Agored yn cadarnhau'r achos, yna byddwn yn tybio y byddwch yn cael eich adfer fel myfyriwr oni fydd yn dweud wrthym fod eich enw wedi'i dynnu oddi ar y rhaglen broffesiynol. Byddwch yn ymwybodol y gall eich cyflogwr/eich noddwr/eich Cyflogwr Llwybr Annibynnol/darparwr eich lleoliad gadw'r hawl i roi ei weithdrefnau ei hun ar waith o ganlyniad i'r penderfyniad.

### 4.6 Gwaharddiad dros dro tra bydd canlyniad yr achos yn yr arfaeth:

4.6.1 Gall fod angen eich gwahardd dros dro, tra bydd canlyniad y weithdrefn hon yn yr arfaeth, fel yr amlinellir yn yr Amodau Cofrestru ar gyfer myfyrwyr ar gyrsiau a addysgir, Amodau Cofrestru (Prentisiaid), y Cytundeb Atodol neu'r Amodau Cofrestru ar gyfer Rhaglenni Plismona (os yw'n berthnasol).

4.6.2 Gall cyflogwr, noddwr neu ddarparwr lleoliad eich gwahardd dros dro rhag ymarfer yn unig, yn unol ag unrhyw reolau neu reoliadau sy'n gymwys i'r amgylchedd ymarfer hwnnw. Yn achos Prentisiaethau a'r Rhaglen Plismona, gall y cyflogwr dynnu eich enw o'r rhaglen gyfan. Bydd y cyflogwr, y noddwr neu ddarparwr y lleoliad yn hysbysu'r Brifysgol Agored am unrhyw waharddiad dros dro cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac yn rhoi'r rhesymau dros y gwaharddiad dros dro.

4.6.3 Os bydd pryder wedi codi o ganlyniad i ymchwiliad troseddol gan yr heddlu neu awdurdod ymchwilio arall, neu o ganlyniad i ymchwiliad o'r fath, ar gyfer pob Rhaglen heblaw'r Rhaglen Plismona, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y dylech gael eich gwahardd dros dro rhag ymarfer neu astudio. Bydd Cadeirydd y Panel Adolygu yn anfon argymhelliad at Bwyllgor Disgyblu Canolog Y Brifysgol Agored a fydd yn penderfynu a yw'r mater yn ddigon difrifol i warantu gwaharddiad dros dro. Efallai y bydd angen gohirio camau pellach o dan y weithdrefn hon nes y bydd unrhyw achos llys wedi'i gwblhau. Os byddwch wedi cael eich gwahardd dros dro, caiff hyn ei adolygu'n rheolaidd, oherwydd mae'n bosibl y caiff achosion eu hatgyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron neu Brocuradur Ffisgal, ond y caiff penderfyniad diweddarach ei wneud i beidio â pharhau â'r achos.

4.6.4 Dim ond tra bydd ymchwiliad addasrwydd i ymarfer gan un o awdurdodau gweithredol awdurdodedig Y Brifysgol Agored yn yr arfaeth y gallwch gael eich gwahardd dros dro o'ch astudiaethau academaidd a'ch ymarfer proffesiynol. Gall hyn fod yn Ddeon Cyswllt, yn Gyfarwyddwr Rhaglen neu'n Bennaeth y rhaglen broffesiynol berthnasol, yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Academaidd neu ddirprwy i'r bobl hyn. Yn achos Prentisiaethau, gall y cyflogwr dynnu eich enw o'r rhaglen gyfan.

4.6.5 Os byddwch yn cael eich gwahardd dos dro rhag ymarfer, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y dylech gael eich gwahardd dros dro rhag parhau i fod yn un o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored (fodd bynnag, ceir eithriadau ar gyfer Plismona). Er ei bod yn bosibl na allwch barhau ag elfennau sy'n gysylltiedig ag ymarfer eich astudiaeth tra bydd ymchwiliad yn yr arfaeth, efallai y gallwch barhau â'ch astudiaethau academaidd drwy drosglwyddo eich credyd i gymhwyster nad yw'n gysylltiedig ag ymarfer ar gyfer astudiaeth academaidd yn unig.

Nid yw hyn yn gymwys i Brentisiaethau na TAR (Cymru), oni fyddwch yn bwriadu talu am eich modiwl newydd eich hun. Os penderfynir eich gwahardd dros dro rhag unrhyw fath o astudiaethau gyda'r Brifysgol Agored, rhaid i sail y penderfyniad hwn nodi'n glir pam na allwch barhau â'ch astudiaethau academaidd.

4.6.6 Os byddwch yn parhau i fod wedi eich gwahardd dros dro rhag ymarfer a/neu astudiaeth academaidd ar yr adeg pan fyddai modiwl neu gymhwyster wedi cael ei gwblhau fel arfer, ac o ganlyniad i'r gwaharddiad dros dro hwnnw, nad ydych wedi cael digon o gyfle i ddangos canlyniadau dysgu'r modiwl neu'r cymhwyster hwnnw, lle y bo'n bosibl ac yn briodol, cewch eich ailgofrestru ar y modiwl neu'r cymhwyster (neu fodiwl neu gymhwyster a gyflwynwyd yn ei le) er mwyn eich galluogi i gwblhau eich astudiaethau.

4.6.7 Ar gyfer Prentisiaethau a Rhaglenni Plismona, gall eich cyflogwr dynnu eich enw o'r rhaglen gyfan tra bydd yr ymchwiliad yn mynd rhagddo yn lleoliad eich prentisiaeth. Gall canlyniad ymchwiliad y cyflogwr effeithio ar eich gallu i ailgydio yn y brentisiaeth.

## 5. Hawl i Apelio

Os byddwch am apelio yn erbyn penderfyniad y panel ymchwilio, panel y Cyfarfod Adolygu neu unrhyw agwedd ar y ffordd y cafodd y weithdrefn hon ei chymhwyso, darllenwch y Weithdrefn Gwyno ac Apelio i Fyfyrwyr.

## 6. Diffyg cydymffurfio

Os byddwch yn gwrthod cydweithredu neu gymryd rhan yn y weithdrefn hon, bydd Y Brifysgol Agored yn cadw'r hawl i ddilyn polisïau neu weithdrefnau priodol amgen neu ychwanegol fel y Cod Ymarfer ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr, y Polisi Addasrwydd i Astudio, y Polisi Ymddygiad Academaidd neu unrhyw bolisi perthnasol arall a nodir yn 'Dogfennaeth Gysylltiedig'. Byddwn yn eich hysbysu am unrhyw gamau ychwanegol y gellir eu cymryd i ymateb i'ch achos.

## 7. Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth

7.1 Mae prosesu data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn yn rhan o'n tasg gyhoeddus o gyflwyno cymwysterau Addysg Uwch.

7.2 Gallwch chi, a/neu eich tystion, ddatgan y bydd datgelu data personol, neu ddata “categori arbennig” fel gwybodaeth am iechyd corfforol neu feddyliol, yn helpu i esbonio eich amgylchiadau. Byddwn yn gofyn am eich cydsyniad hyddysg chi a'ch tystion i ddefnyddio data o'r fath fel rhan o'r weithdrefn hon. Gallwch chi a'ch tystion dynnu eich cydsyniad i ddefnyddio'r data “categori arbennig” hyn yn ôl unrhyw bryd.

7.3 Gallwch chi, a/neu eich tystion, ofyn am i unrhyw ddata “categori arbennig” a gesglir o dan y weithdrefn hon gael eu tynnu oddi ar ein systemau os byddwch/byddant yn tynnu eich/eu cydsyniad yn ôl.

7.4 Os byddwch yn datgelu gwybodaeth anabledd i ni yn ystod ein trafodaethau â chi, byddwn yn cofnodi hyn ar eich cofnod myfyriwr. Gofynnir i chi a hoffech i'r wybodaeth hon gael ei hanfon at y timau cymorth, a all siarad â chi am gymorth ychwanegol a all fod ar gael. Dim ond os byddwch yn cytuno y caiff y wybodaeth hon ei rhannu.

7.5 Ceir rhagor o wybodaeth am y ffordd y caiff eich data eu defnyddio, eu storio a'u rhannu yn yr Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfyrwyr.

7.6 O dan amgylchiadau arferol, ni chaiff eich data eu rhannu â thrydydd partïon y tu allan i'r Brifysgol Agored, darparwr eich lleoliad, eich cyflogwr na'ch noddwr.

Os byddwn o'r farn eich bod chi neu eraill yn wynebu risg o niwed oherwydd eich ymddygiad neu weithredoedd, byddwn yn rhannu eich data â sefydliadau eraill heb eich cydsyniad o dan yr amgylchiadau eithriadol a nodir yn Neddf Diogelu Data 2018 Atodlen 1, paragraffau 1, 10 a 18.

7.7 Mewn sefyllfa eithriadol, os bydd angen rhannu'r data, byddwn yn ceisio eich cydsyniad. Gelwir yr amgylchiadau canlynol yn amgylchiadau lliniarol neu waethygol. Dyma'r unig amgylchiadau lle y gallem rannu'r data â sefydliadau eraill heb eich cydsyniad:

7.7.1 Pan fydd eich iechyd meddwl yn bygwth eich diogelwch personol (Deddf Diogelu Data 2018, atodlen 1 (18) diogelu)

7.7.2 Pan fydd eich amgylchiadau yn cael effaith andwyol ar hawliau ac iechyd a diogelwch eraill (atodlen 1 (1) ar gyfer diogelwch cymdeithasol/iechyd a diogelwch)

7.7.3 Pan fyddai aelod o'r staff yn wynebu achos llys pe na byddai'r wybodaeth wedi'i datgelu (h.y. roedd trosedd wedi cyflawni) atodlen 1 (10) atal/canfod trosedd.

7.8 Os bydd unrhyw un o'r amgylchiadau a nodir yn 7.7 yn codi, gall Y Brifysgol Agored gysylltu â'r heddlu, ysbyty, gwasanaethau seiciatrig, gweithiwr achos, gweithiwr achos, nyrs seiciatrig, gwasanaethau cymdeithasol neu eiriolwr a enwebwyd i siarad ar eich rhan (at ddibenion Y Brifysgol Agored neu wedi'i benodi gan lys).

7.9 Cedwir data sy'n gysylltiedig â'ch Addasrwydd i Astudio ar eich cofnod myfyriwr am gyfnod eich rhaglen broffesiynol neu gyhyd ag y byddwch yn parhau i fod yn un o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored (ynghyd â chwe blynedd fel y nodir yn Cadw Data a Chofnodion Myfyrwyr).

## 8. Safonau'r Gymraeg

An English language version of this policy is available.

Mae fersiwn Saesneg o'r polisi hwn hefyd ar gael.

8.1 Mae gan fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru yr hawl i gyfathrebu â'r Brifysgol Agored drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys:

- Gohebiaeth – mae gennych yr hawl i ysgrifennu atom neu anfon e-bost atom yn Gymraeg, a byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg os byddwch yn dymuno i ni wneud hynny.

- Cyfarfodydd – pan fyddwn yn eich gwahodd i gyfarfod fel rhan o'r weithdrefn, naill ai'n bersonol neu dros y ffôn neu ar-lein, byddwn yn gofyn i chi a fyddwch yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Os byddwch yn dewis defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ac nad yw pawb a fydd yn bresennol yn siaradwyr Cymraeg, byddwn yn trefnu cyfieithydd ar y pryd.

8.2 Eiriolwyr – gall unrhyw eiriolwr y byddwch yn ei ddewis i'ch cynrychioli hefyd ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw gyfarfod neu ohebiaeth.

# Diffiniadau

## Swyddfa'r Goron a'r Gwasanaeth Procuradur Ffisgal (COPFS)

Swyddfa'r Goron a'r Gwasanaeth Procuradur Ffisgal yw gwasanaeth erlyn cyhoeddus ac awdurdod ymchwilio i farwolaethau yr Alban

## Addasrwydd i Ymarfer

Addasrwydd i ymarfer yw eich gallu i gyrraedd safonau proffesiynol. Mae'n cwmpasu eich cymeriad, eich cymhwysedd proffesiynol a'ch iechyd.

## Cyflogwr Llwybr Annibynnol

Cyflogwr Llwybr Annibynnol at ddibenion y weithdrefn hon yw'r sefydliad y mae gan y Myfyriwr Gontract Anrhydeddus ag ef i astudio cymhwyster Nyrsio, os nad yw'r Myfyriwr wedi'i gyflogi'n uniongyrchol gan y sefydliad. Ceir rhagor o wybodaeth am Gyflogwyr Llwybr Annibynnol yn y Cytundeb Atodol (Nyrsio).

## Panel Ymchwilio

Caiff Panel Ymchwilio ei gadeirio gan uwch-aelod o'r staff na fydd wedi bod yn rhan o'r achos yn flaenorol. Caiff aelodau'r Panel Ymchwilio eu hyfforddi a'u paratoi er mwyn sicrhau y gallant ymgymryd ag ymchwiliad i bryder ynghylch addasrwydd myfyriwr i ymarfer.

## Amgylchiadau lliniarol a/neu waethygol

Gallai amgylchiadau lliniarol gynnwys eich bod yn dangos edifeirwch sy'n cynnwys difaru a hunanymwybyddiaeth. Efallai eich bod yn dangos dirnadaeth sy'n cynnwys dealltwriaeth ddofn; eich bod wedi datgelu salwch sydd bellach yn cael ei drin; neu eich bod wedi darparu tystiolaeth na chafwyd arweiniad proffesiynol priodol ar leoliad.

Gallai amgylchiadau gwaethygol gynnwys eich bod yn gwadu bod rhywbeth wedi mynd o chwith neu nad ydych yn dangos unrhyw ddealltwriaeth bod rhywbeth wedi mynd o chwith, neu eich bod eisoes wedi bod drwy gam anffurfiol y weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer, ond bod rhagor o bryderon wedi cael eu codi.

## Panel y Cyfarfod Adolygu

Panel ffurfiol yw panel y Cyfarfod Adolygu a fydd yn penderfynu ar ddifrifoldeb yr achos o fynd yn groes i'r safonau proffesiynol a nodwyd yn y contract gyda'r cytundeb ysgrifenedig mewn rhaglen hyfforddi. Bydd panel y Cyfarfod Adolygu yn ystyried yr asesiad risg a'r dystiolaeth a gasglwyd yn y cam ymchwilio.

## Uwch-awdurdod

Yr Uwch-awdurdod yw'r person a fydd yn rheoli eich achos. Bydd yn gyfarwydd â'ch rhaglen astudio a sut i gymhwyso'r weithdrefn hon. Bydd y math o achos yr ymchwilir iddo yn dylanwadu ar bwy fydd y person hwn. Er enghraifft, os yw eich achos yn ymwneud â materion ymddygiad academaidd, gall eich Uwch-awdurdod fod yn Gadeirydd y Modiwl neu'n academydd arall. Os yw eich achos yn ymwneud â'ch ymddygiad mewn lleoliad ymarfer, gall fod yn arbenigwr priodol sydd â phrofiad o faterion yn eich lleoliad.

## Data Categori Arbennig

Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn nodi “categorïau arbennig” o ddata y mae'n rhaid rhoi diogelwch ychwanegol iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys eich tarddiad hiliol neu ethnig, credoau crefyddol, barn wleidyddol, aelodaeth o undeb llafur, geneteg, biometreg (lle y'i defnyddir at ddibenion adnabod), iechyd corfforol neu feddyliol, bywyd rhywiol a chyfeiriadedd rhywiol. Caiff gwybodaeth am droseddau neu achosion llys ei thrin yn yr un modd.

### Grŵp Addasrwydd i Ymarfer Arbenigol

Ar gyfer Nyrsio a Gwaith Cymdeithasol, mae Grwpiau Addasrwydd i Ymarfer arbenigol wedi'u sefydlu i gynnal Asesiadau Risg unigol a chymryd rhan mewn Paneli Ymchwilio a Phaneli Adolygu Addasrwydd i Ymarfer.

### Noddwr/Asiantaeth Noddi (Gwaith Cymdeithasol)/Ysgol Bartner (TAR)

Ystyr Noddwr/Asiantaeth Noddi/Ysgol Bartner yw sefydliad sy'n cyflwyno myfyriwr i gymryd rhan yn y rhaglen ac yn trefnu i'w ymarfer dysgu gael ei oruchwylio; defnyddir y term hwn p'un a yw'r sefydliad hefyd yn talu ffioedd dysgu'r myfyriwr ai peidio.

### Un o Fyfyrwyr Y Brifysgol Agored

At ddibenion y weithdrefn hon, rydych yn un o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored os ydych wedi'ch cofrestru ar hyn o bryd ar gyfer cymhwyster neu fodiwl, neu os ydych wedi astudio modiwl yn ystod un o'r ddwy flwyddyn academaidd ddiwethaf.

## Deddfwriaeth a Pholisïau Cysylltiedig

Cyfeiriwch at y ddogfennaeth ganlynol ar y cyd â'r ddogfen hon:

### Dogfennau sy'n llywodraethu eich astudiaethau:

- Eirioli: canllawiau a gweithdrefn
- Cod Ymarfer ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr
- Amodau Cofrestru
- Amodau Cofrestru (Prentisiaid)
- Amodau Cofrestru ar gyfer Rhaglenni Plismona
- Polisi Addasrwydd i Astudio
- Polisi Ymddygiad Academaidd
- Egwyddorion Prevent

- Polisi Diogelu
- Gweithdrefn Gwyno ac Apelio i Fyfyrwyr
- Polisi Cyfrifiadura i Fyfyrwyr
- Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfyrwyr (Caiff yr holl ddata personol, yn cynnwys 'data personol sensitif', eu trin yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfyrwyr.)

### Gwybodaeth a Chanllawiau:

- Deddf Cydraddoldeb 2010 i Gymru, Lloegr a'r Alban
- Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998
- Rheoliadau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2004

## Rhoi Gwybod mewn Lle Diogel

Mae'r Brifysgol Agored yn ymrwymedig i greu amgylchedd amrywiol a chynhwysol lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu trin ag urddas a pharch. Ni chaiff gwahaniaethu anghyfreithlon o unrhyw fath ei oddef yn Y Brifysgol Agored. Mae Rhoi Gwybod mewn Lle Diogel ar gael drwy adnodd ar-lein y caiff staff, myfyrwyr, dysgwyr ac ymwelwyr eu hannog i'w ddefnyddio i roi gwybod am achosion o ymosod, bwlio, aflonyddu, troseddau casineb neu aflonyddu rhywiol. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am yr hyn y gallwch ei wneud os bydd yr achosion hyn yn digwydd i chi neu i rywun rydych yn ei adnabod, a ble y gallwch gael cymorth.

## Safonau'r Gymraeg

Yr iaith Gymraeg (Safonau'r Gymraeg)

Mae'r Brifysgol Agored yn un o nifer o brifysgolion a enwir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw fyfyrwyr yng Nghymru ddisgwyl cael gwasanaethau penodol gan Y Brifysgol Agored drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn Safonau'r Gymraeg Y Brifysgol Agored.

Mae hyn yn golygu y gallwch siarad â'n tîm Recriwtio a Chynorthwyo Myfyrwyr yn Gymraeg neu gysylltu â'r brifysgol yn Gymraeg. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau fel rhywun sy'n defnyddio'r Gymraeg ar wefan Y Brifysgol Agored yng Nghymru.

### Gwerthoedd Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored

Cafodd y Siarter Myfyrwyr ei ddatblygu ar y cyd gan Y Brifysgol Agored a Chymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored. Mae'n ddatganiad o'r gwerthoedd rydym yn eu rhannu a'r ymrwymiadau a wnawn i'n gilydd. Cafodd y ddogfen hon ei datblygu yn seiliedig ar werthoedd y Siarter Myfyrwyr.

### Ymrwymiad Y Brifysgol Agored i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb a chynhwysiant yn rhan o bopeth a wnawn ac yn adlewyrchu ein cenhadaeth i fod yn agored i bobl, mannau, dulliau a syniadau. Rydym yn dathlu amrywiaeth a'r cryfderau sy'n deillio o hynny, gan herio cynrychiolaeth annigonol a gwahaniaethau mewn deilliannau yn ein sefydliad. Rydym yn hyrwyddo ac yn rheoli cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn cyflawni ein nodau strategol a'n dyletswyddau cydraddoldeb statudol. Rydym yn gwneud hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy ddatblygu polisi cynhwysol.

### Rhowch Eich Adborth i Ni

Os bydd gennych unrhyw sylwadau am y weithdrefn hon a'r ffordd y gellid ei gwella, anfonwch nhw atom, drwy e-bostio student-policy-compliance@open.ac.uk.

### Datganiad yr Elusen

Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff Y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd.

## Ynglŷn â'r Ddogfen hon

Gwnaed mân ddiweddariadau ym mis Tachwedd 2025 i gywiro'r rhestr o aelodau'r panel yn Atodiadau 2 a 3.

## Crynodeb o'r Newidiadau Sylweddol ers y fersiwn flaenorol

a. Diweddarwyd templed y weithdrefn er mwyn creu fersiwn fwy cryno a hygyrch, a chrëwyd crynodeb byr newydd i gyd-fynd â'r Weithdrefn lawn.

b. Gwnaed gwelliannau mewn ymateb i Ymgynghoriad â Myfyrwyr yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2024.

c. Ychwanegwyd Atodiad 7 newydd ar gyfer R86 BSc Anrh mewn Cwnsela, a fydd yn derbyn myfyrwyr ymarfer o fis Hydref 2025.

d. Diweddarwyd pob cyfeiriad at Amodau Cofrestru ar gyfer Rhaglen Mynediad i Ddeiliaid Gradd i Amodau Cofrestru ar gyfer Rhaglenni Plismona er mwyn adlewyrchu newidiadau diweddar i'r Rhaglen Plismona, gan gynnwys cymhwyster y Rhaglen Mynediad Cwnstabl yr Heddlu newydd.

e. Ychwanegwyd cyfeiriadau ar gyfer Nyrsio i gyfeirio at Gyflogwyr Llwybr Annibynnol yn lle cyflogwyr lle y bo'n gymwy, o ystyried y ddarpariaeth Llwybr Annibynnol newydd ar gyfer Nyrsio.

## Polisïau a Ddisodlir gan y Ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn disodli'r fersiwn flaenorol o'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer, dyddiedig Rhagfyr 2024, sef fersiwn 1.1.

## Gwybodaeth am y Ddogfen

Rhif y fersiwn: 1.2

Cymeradwywyd gan: Y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr

Yn weithredol o: Rhagfyr 2024

Dyddiad adolygu: Rhagfyr 2025

# Atodiadau

## Atodiad 1: Amserlen enghreifftiol ar gyfer Cyfarfod Adolygu

| **Cam** | **Dyddiad enghreifftiol** | **Sylw** |
|---|---|---|
| Penderfynir cynnull panel Cyfarfod Adolygu. | 1 Gorffennaf | Dd/G |
| Cewch hysbysiad ysgrifenedig gan y panel yn nodi beth fydd y broses a dyddiad y Cyfarfod Adolygu. | 15 Gorffennaf | Bydd gan y gyfadran 10 diwrnod gwaith i gasglu tystiolaeth a recriwtio aelodau'r panel. |
| Caiff agenda'r cyfarfod a'r dystiolaeth eu hanfon atoch chi ac aelodau'r panel. | 23 Gorffennaf | Byddwch yn cael y wybodaeth hon o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad y Cyfarfod Adolygu. |
| Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r dystiolaeth. | 13 Awst | Bydd gennych 10 diwrnod gwaith i ymateb i'r dystiolaeth. |
| Cyflwynir eich ymateb i'r panel. | 27 Awst | Rhaid i hyn fod o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y Cyfarfod Adolygu. |
| Cynhelir y Cyfarfod Adolygu. | 14 Awst | Dd/G |
| Cewch hysbysiad ysgrifenedig gan y panel yn nodi'r penderfyniad terfynol ac unrhyw argymhellion | 3 Medi | Rhaid i'r panel eich hysbysu am ei benderfyniadau o fewn 15 diwrnod gwaith. |

| Cam | Dyddiad enghreifftiol | Sylw |
|---|---|---|
| Y dyddiad cau ar gyfer apelio | 17 Medi | Bydd gennych 10 diwrnod gwaith i apelio yn erbyn penderfyniad neu argymhellion y panel |

## Atodiad 2: Gwaith Cymdeithasol

- Cytundeb Atodol (Gwaith Cymdeithasol)

### 1. Rhaglen Broffesiynol Gwaith Cymdeithasol (Lloegr)

#### 1.1 Y cymwysterau a gwmpesir:

- Q32: BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol (Lloegr)
- R34: BA (Anrh) mewn Gwaith Cymdeithasol (Lloegr) (Prentisiaeth)
- F80: MA mewn Gwaith Cymdeithasol
- E85: Diploma Ôl-raddedig mewn Gwaith Cymdeithasol

#### 1.2 Corff proffesiynol, statudol neu reoleiddio:

- Social Work England

#### 1.3 Cod Ymarfer a dogfennau rheoleiddio perthnasol:

- Social Work England – Safonau Proffesiynol

#### 1.4 Cyfansoddiad panel y Cyfarfod Adolygu:

- cadeirydd: Pennaeth Gwaith Cymdeithasol (Lloegr), neu ei enwebai;
- cynrychiolydd o asiantaeth noddi;
- aelod o staff academaidd o'r rhaglen broffesiynol gwaith cymdeithasol;
- cynrychiolydd myfyrwyr (myfyriwr presennol neu gyn-fyfyriwr) Y Brifysgol Agored o'r rhaglen broffesiynol gwaith cymdeithasol;
- un o swyddogion cymryd nodiadau diduedd a phrofiadol Y Brifysgol Agored.

Ni ddylai unrhyw aelod o'r Panel ymwneud yn uniongyrchol â'r myfyriwr dan sylw.

### 1.5 Gofynion mynediad penodol ar gyfer gwaith cymdeithasol:

Rhaid i chi ddangos y galluoedd lefel mynediad a gofynion mynediad eraill a bennir gan raglen gwaith cymdeithasol Y Brifysgol Agored – ceir dolenni iddynt yn yr adran Cymwysterau uchod. Gall eich Tîm Cymorth Myfyrwyr neu eich APDM i Brentisiaid ddarparu'r gofynion hefyd.

## 2. Rhaglen Broffesiynol Gwaith Cymdeithasol (yr Alban)

### 2.1 Y cymwysterau a gwmpesir:

- Q41 BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol (yr Alban)
- Q50 BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol (yr Alban) (mynediad i raddedigion)
- F80: MA mewn Gwaith Cymdeithasol
- E85: Diploma Ôl-raddedig mewn Gwaith Cymdeithasol

### 2.2 Corff proffesiynol, statudol neu reoleiddio:

- Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban (rheoleiddiwr) (SSSC)

### 2.3 Cod Ymarfer a dogfennau rheoleiddio perthnasol:

- SSSC (2016) Codau Ymarfer ar gyfer Gweithwyr a Chyflogwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer SSSC

### 2.4 Cyfansoddiad panel y Cyfarfod Adolygu:

- cadeirydd: Pennaeth Gwaith Cymdeithasol (yr Alban), neu ei enwebai;
- cynrychiolydd o asiantaeth noddi;
- aelod o staff academaidd o'r rhaglen broffesiynol gwaith cymdeithasol
- cynrychiolydd myfyrwyr (myfyriwr presennol neu gyn-fyfyriwr) Y Brifysgol Agored o'r rhaglen broffesiynol gwaith cymdeithasol;
- un o swyddogion cymryd nodiadau diduedd a phrofiadol Y Brifysgol Agored.

Fel arfer, byddai aelodau'n cael eu penodi oddi mewn i'r rhaglen broffesiynol Gwaith Cymdeithasol (yr Alban).

Ni ddylai unrhyw aelod o'r panel ymwneud yn uniongyrchol â'r myfyriwr dan sylw.

### 2.5 Gofynion mynediad penodol ar gyfer gwaith cymdeithasol:

Rhaid i chi ddangos y galluoedd lefel mynediad a gofynion mynediad eraill a bennir gan raglen gwaith cymdeithasol Y Brifysgol Agored – ceir dolenni iddynt yn yr adran cymwysterau uchod. Gall eich Tîm Cymorth Myfyrwyr neu eich APDM i Brentisiaid ddarparu'r gofynion hefyd.

## 3. Rhaglen Broffesiynol Gwaith Cymdeithasol (Cymru)

### 3.1 Y cymwysterau a gwmpesir:

- Q42 BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol (Cymru)
- F80: MA mewn Gwaith Cymdeithasol
- E85: Diploma Ôl-raddedig mewn Gwaith Cymdeithasol

### 3.2 Corff proffesiynol, statudol neu reoleiddio:

- Gofal Cymdeithasol Cymru (rheoleiddiwr) (GCC)

### 3.3 Cod Ymarfer a dogfennau rheoleiddio perthnasol:

- Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol GCC (2018)
- Canllawiau Addasrwydd i Ymarfer GCC

### 3.4 Cyfansoddiad panel y Cyfarfod Adolygu:

- cadeirydd: Pennaeth Gwaith Cymdeithasol (Cymru), neu ei enwebai;
- cynrychiolydd asiantaeth bartner o Bartneriaeth Rhaglen Cymru;
- aelod o staff academaidd o'r rhaglen broffesiynol gwaith cymdeithasol;
- cynrychiolydd myfyrwyr (myfyriwr presennol neu gyn-fyfyriwr) Y Brifysgol Agored o'r rhaglen broffesiynol gwaith cymdeithasol;

- un o swyddogion cymryd nodiadau diduedd a phrofiadol Y Brifysgol Agored.

Fel arfer, dylid penodi aelodau o raglen Cymru.

Ni ddylai unrhyw aelod o'r panel ymwneud yn uniongyrchol â'r myfyriwr dan sylw.

### 3.5 Gofynion mynediad penodol ar gyfer gwaith cymdeithasol:

Rhaid i chi ddangos y galluoedd lefel mynediad a gofynion mynediad eraill a bennir gan raglen gwaith cymdeithasol Y Brifysgol Agored – ceir dolenni iddynt yn yr adran cymwysterau uchod. Gall eich Tîm Cymorth Myfyrwyr neu eich APDM i Brentisiaid ddarparu'r gofynion hefyd.

## 4. Rhaglen Broffesiynol Gwaith Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon)

### 4.1 Y cymwysterau a gwmpesir:

- R61 BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon)

### 4.2 Corff proffesiynol, statudol neu reoleiddio:

- Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon (NISCC)

### 4.3 Cod Ymarfer a dogfennau rheoleiddio perthnasol:

- Safonau Ymddygiad ac Ymarfer NISCC ar gyfer myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol

### 4.4 Cyfansoddiad panel y Cyfarfod Adolygu:

- cadeirydd: Pennaeth Cyswllt yr Ysgol, Rhaglenni Proffesiynol, neu ei enwebai (y mae'n rhaid iddo fod yn Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig a chofrestredig);
- cynrychiolydd o asiantaeth noddi;
- aelod o staff academaidd o'r rhaglen broffesiynol gwaith cymdeithasol,
- cynrychiolydd myfyrwyr (myfyriwr presennol neu gyn-fyfyriwr) Y Brifysgol Agored o'r rhaglen broffesiynol gwaith cymdeithasol;

- un o swyddogion cymryd nodiadau diduedd a phrofiadol Y Brifysgol Agored.

Ni ddylai unrhyw aelod o'r panel ymwneud yn uniongyrchol â'r myfyriwr dan sylw.

### 4.5 Gofynion mynediad ar gyfer gwaith cymdeithasol:

Rhaid i chi ddangos y galluoedd lefel mynediad a gofynion mynediad eraill a bennir gan raglen gwaith cymdeithasol Y Brifysgol Agored – ceir dolenni iddynt yn yr adran cymwysterau uchod. Gall eich Tîm Cymorth Myfyrwyr neu eich APDM i Brentisiaid ddarparu'r gofynion hefyd.

## 5. Cytundeb ffurfiol â noddwyr/cyflogwyr gwaith cymdeithasol:

5.1 Bydd pob asiantaeth noddi yn llofnodi cytundeb ffurfiol sy'n egluro priod gyfrifoldebau'r Brifysgol Agored a'r noddwr. Bydd asiantaethau noddi yn cytuno i sicrhau eich bod yn cael cyfnod o 20 diwrnod o baratoi i ymarfer, eich bod yn cael dau gyfle ymarfer dysgu gwrthgyferbyniol gydag addysgwr ymarfer addas, ac y cytunir ar drefniadau ar gyfer seibiant astudio.

5.2 Bydd asiantaethau noddi hefyd yn derbyn, heb ragfarnu eu hawl i ddelio â materion cyflogaeth o dan eu gweithdrefnau arferol, yr ymdrinnir â materion Addasrwydd i Ymarfer sy'n codi mewn perthynas â lleoliadau gwaith, neu faterion eraill sy'n ymwneud â chyflogaeth sy'n effeithio ar eich gallu i barhau ar y rhaglen, o dan y gweithdrefnau hyn. Byddant hefyd yn cynnwys cytundeb y bydd pob parti yn rhannu unrhyw wybodaeth am unrhyw faterion sy'n ymwneud â'ch ymddygiad a allai effeithio ar eich addasrwydd proffesiynol neu eich addasrwydd i ymarfer, ac yn rhannu'r dystiolaeth berthnasol y gall fod ei hangen ar Y Brifysgol Agored ar gyfer y weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer hon.

5.3 Os bydd achos pryder yn codi yn ystod cyfnod yr ymarfer, bydd asiantaethau noddi yn hysbysu Pennaeth Gweithrediadau Gwaith Cymdeithasol Y Brifysgol Agored ar unwaith, yn ogystal â rhoi eu gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer eu hunain ar waith, neu ochr yn ochr â hynny.

## Atodiad 3: Nyrsio

- Cytundeb Atodol (Nyrsio)

### 1. Rhaglen Broffesiynol Nyrsio

**1.1 Y cymwysterau a gwmpesir:**

- Q73: BSc (Anrh) Nyrsio Oedolion
- Q74: BSc (Anrh) Nyrsio Iechyd Meddwl
- R39 BSc (Anrh) Nyrsio
- R43 BSc (Anrh) Nyrsio (Prentisiaeth)
- X19 Gradd Sylfaen mewn Ymarfer Cydymaith Nyrsio (Prentisiaeth)
- X20 Gradd Sylfaen mewn Ymarfer Cydymaith Nyrsio

**1.2 Corff proffesiynol, statudol neu reoleiddio:**

- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (rheoleiddiwr) (NMC)

**1.3 Cod Ymarfer a dogfennau rheoleiddio perthnasol:**

- Y Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio (NMC Hydref 2018)
- Safonau ar gyfer nyrsys (NMC 2018)
- Safonau ar gyfer cymdeithion nyrsio (NMC 2018)
- Canllawiau: Iechyd a chymeriad fel myfyriwr (NMC 2019)
- Canllawiau: Codi pryderon
- Codi pryderon: Canllawiau ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio
- Safonau Medrusrwydd ar gyfer Rhaglenni Nyrsio Cyn Cofrestru (NMC Ionawr 2019)
- Safonau Medrusrwydd ar gyfer Rhaglenni Bydwreigiaeth Cyn Cofrestru (NMC Ionawr 2020)

- [Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth (NMC Ionawr 2019)]

## 1.4 Cyfansoddiad y panel adolygu

- Uwch-aelod Academaidd o'r Ysgol Nyrsio;
- cynrychiolydd Tiwtor Staff (na fu'n rhan o'r asesiad risg cychwynnol);
- cynrychiolydd myfyrwyr (myfyriwr presennol neu gyn-fyfyriwr) Y Brifysgol Agored o'r rhaglen broffesiynol Nyrsio;
- cyflogwr / cynrychiolydd cyflogwr (ni ddylai fod yn aelod o staff o adran / lleoliad gwaith clinigol y myfyriwr, nac wedi cymryd rhan yn yr ymarfer casglu tystiolaeth cychwynnol);
- un o swyddogion cymryd nodiadau diduedd a phrofiadol Y Brifysgol Agored;
- cynrychiolydd Cyflogwr Llwybr Annibynnol (yn berthnasol i gymhwyster R39 BSc (Anrhydedd) Nyrsio yn unig)

Rhaid i'r panel gynnwys o leiaf un aelod (nad yw'n cynnwys y sawl sy'n cymryd nodiadau) sydd â chefndir yn y maes astudio penodol y mae'r myfyriwr yn ymgymryd ag ef (h.y. Nyrsio Oedolion, Iechyd Meddwl, Plant a Phobl Ifanc neu Anableddau Dysgu). Ar gyfer myfyrwyr ar bartneriaethau Dysgu Cyfunol Y Brifysgol Agored, cynrychiolydd o'r bartneriaeth honno.

Ni ddylai unrhyw aelod o'r panel fod wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r myfyriwr dan sylw.

# 2. Gofynion mynediad penodol ar gyfer nyrsio:

2.1 Rhaid i fyfyrwyr nyrsio Y Brifysgol Agored fod naill ai:

- wedi'u cyflogi mewn rôl gweithiwr cymorth gofal iechyd neu leoliad cyfatebol derbyniol (Myfyrwyr a Dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymhwyster Nyrsio ond nad ydynt yn dilyn y Llwybr Annibynnol)
- ar gontract Anrhydeddus gyda'u Cyflogwr Llwybr Annibynnol (Myfyrwyr sy'n dilyn y Llwybr Annibynnol)

Gallant gael eu hariannu gan eu cyflogwr neu un o asiantaethau'r llywodraeth neu, yn Lloegr, gallant ariannu eu hastudiaethau eu hunain.

2.2 Rhaid i chi ddangos y galluoedd lefel mynediad a gofynion mynediad eraill a bennir gan raglen nyrsio Y Brifysgol Agored – ceir dolenni iddynt yn yr adran cymwysterau uchod neu gallwch eu cael gan eich Tîm Cymorth Myfyrwyr neu eich APDM ar gyfer Prentisiaid.

## 3. Cytundeb ffurfiol â chyflogwyr neu Gyflogwyr Llwybr Annibynnol

3.1 Bydd pob cyflogwr yn llofnodi Cytundeb ffurfiol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo hysbysu'r Brifysgol Agored:

- ar unwaith os byddwch yn cael eich anfon o leoliad (a'r rheswm dros hynny) ar sail ymddygiad, addasrwydd neu ddiogelwch cleifion, gan gydymffurfio ag unrhyw weithdrefnau disgyblu sy'n berthnasol i chi wedi hynny;
- ynghylch pryderon a godwyd amdanoch dros gyfnod o amser cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol;
- os byddwch yn tynnu'n ôl o'r rhaglen neu'n dod â'ch cyflogaeth i ben;
- os byddwch yn absennol o'r rhaglen am gyhyd ag y byddai'n peryglu eich gallu i gyflawni deilliannau dysgu a gofynion statudol/rheoleiddio.

3.2 Yn ogystal, mae'n ofynnol i gyflogwyr neu Gyflogwyr Llwybr Annibynnol sicrhau eich bod yn bodloni gofynion iechyd galwedigaethol drwy gydol eich profiad ymarfer, cydymffurfio wrth ateb unrhyw gwyn, esgeuluster clinigol neu hawliad anaf personol sy'n ymwneud â chi, ac annog a chefnogi eu staff i gymryd rhan mewn prosesau disgyblu ac apelio lle y bo'n briodol.

3.3 Bydd cyflogwyr neu Gyflogwyr Llwybr Annibynnol hefyd yn derbyn, heb ragfarnu eu hawl i ddelio â materion cyflogaeth o dan eu gweithdrefnau arferol, yr ymdrinnir â materion Addasrwydd i Ymarfer sy'n codi mewn perthynas â lleoliadau ymarfer neu faterion eraill sy'n codi mewn perthynas â chyflogaeth sy'n effeithio ar eich gallu i barhau ar y rhaglen, o dan y gweithdrefnau arferol hyn. Mae'r Cytundeb hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob parti rannu unrhyw wybodaeth am unrhyw faterion sy'n ymwneud â'ch ymddygiad a allai effeithio ar eich addasrwydd proffesiynol neu eich addasrwydd i ymarfer, a hefyd rannu'r dystiolaeth berthnasol y gall fod ei hangen ar Y Brifysgol Agored ar gyfer y weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer hon.

3.4 Os bydd achos pryder yn codi yn ystod cyfnod yr ymarfer, bydd cyflogwyr neu Gyflogwyr Llwybr Annibynnol yn hysbysu'r Brifysgol Agored ar unwaith, drwy gysylltu â Thiwtor Ymarfer, neu Diwtor Staff, yn ogystal â rhoi eu gweithdrefnau eu hunain ar waith, neu ochr yn ochr â hynny.

## Atodiad 4: Rhagnodi Anfeddygol ac Ymarfer Clinigol Uwch

### 1. Rhaglen Broffesiynol Rhagnodi Anfeddygol ac Ymarfer Clinigol Uwch

#### 1.1 Y cymwysterau a gwmpesir:

- K33: Tystysgrif i Raddedigion mewn Rhagnodi Anfeddygol
- E95 - Diploma Ôl-raddedig mewn Ymarfer Clinigol Uwch
- F85 - MSc mewn Ymarfer Clinigol Uwch
- F91 - MSc mewn Ymarfer Clinigol Uwch (Prentisiaeth)

#### 1.2 Cyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddio

- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC – Rheoleiddiwr)
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)
- Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal

#### 1.3 Cod Ymarfer a dogfennau rheoleiddio perthnasol:

- Safonau ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth (GPhC Mai 2017)
- Y Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio (NMC Hydref 2018)
- Safonau Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal

#### 1.4 Cyfansoddiad y Panel Adolygu:

- Arweinydd Proffesiynol Rhagnodi Anfeddygol / Ymarfer Clinigol Uwch.
- Tiwtor Academaidd (na fu'n rhan o'r asesiad risg cychwynnol).
- Myfyriwr / cynrychiolydd myfyrwyr sydd â phrofiad o raglenni rhagnodi anfeddygol (myfyriwr presennol neu gyn-fyfyriwr Y Brifysgol Agored).

- Cyflogwr / cynrychiolydd cyflogwr (ni ddylai fod yn aelod o staff o adran / lleoliad gwaith clinigol y myfyriwr, nac wedi cymryd rhan yn yr ymarfer casglu tystiolaeth cychwynnol).
- Un o swyddogion cymryd nodiadau diduedd a phrofiadol Y Brifysgol Agored.

Rhaid i'r panel gynnwys o leiaf un aelod (nad yw'n cynnwys y sawl sy'n cymryd nodiadau) sydd â chefndir yn ymwneud â rheoleiddiwr proffesiynol penodol y myfyriwr (h.y. y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth).

Ni ddylai unrhyw aelod o'r panel fod wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r myfyriwr dan sylw.

## 2. Gofynion mynediad penodol ar gyfer y rhaglenni hyn

2.1 Rhaid i chi ddangos y galluoedd lefel mynediad a gofynion mynediad eraill a bennir gan raglenni Rhagnodi Anfeddygol ac Ymarfer Clinigol Uwch Y Brifysgol Agored fel y'u diffinnir ar-lein:

- K33: Tystysgrif i Raddedigion mewn Rhagnodi Anfeddygol
- E95 - Diploma Ôl-raddedig mewn Ymarfer Clinigol Uwch
- F85 - MSc mewn Ymarfer Clinigol Uwch
- F91 - MSc mewn Ymarfer Clinigol Uwch (Prentisiaeth)

Gall eich Tîm Cymorth Myfyrwyr, drwy http://www.open.ac.uk/contact/ neu eich APDM i Brentisiaid ddarparu'r gofynion.

# Atodiad 5: TAR (Cymru)

- Cytundeb Atodol TAR (Cymru)

## 1. Rhaglen TAR (Cymru)

### 1.1 Y cymwysterau a gwmpesir:

- K36 Tystysgrif Addysg i Raddedigion (Cymru)

### 1.3 Cod Ymarfer a dogfennau rheoleiddio perthnasol:

- Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol (1 Medi 2019) Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)

### 1.4 Cyfansoddiad y Panel Adolygu

- Cadeirydd: Cyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru, neu ei enwebai.
- Cynrychiolydd yr ysgol gyflogi (ni ddylai fod yn aelod o staff o ysgol y myfyriwr, nac wedi cymryd rhan yn yr ymarfer casglu tystiolaeth cychwynnol).
- Aelod o staff academaidd TAR, a ddylai fod yn Diwtor Cwricwlwm ond na ddylai fod wedi cymryd rhan yn yr asesiad risg cychwynnol.
- Myfyriwr / cynrychiolydd myfyrwyr sydd â phrofiad o raglen broffesiynol ar wahân i'r rhaglen rydych yn ei hastudio gyda'r Brifysgol Agored (myfyriwr presennol neu gyn-fyfyriwr).
- Un o swyddogion cymryd nodiadau Y Brifysgol Agored.
- Ni ddylai unrhyw aelod o'r panel ymwneud yn uniongyrchol â'r myfyriwr dan sylw.
- Gall myfyriwr ddewis cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu yn Saesneg. Dylai myfyrwyr sy'n dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg hysbysu'r cynrychiolydd enwebedig, fel bod modd trefnu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gyfer siaradwyr di-Gymraeg. Bydd gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu am ddim i'r myfyriwr.

## 2. Gofynion mynediad penodol ar gyfer y rhaglen hon:

sy'n gymwys i gyfnodau Cynradd ac Uwchradd, oni nodir fel arall:

2.1 Gradd neu gymhwyster cyfatebol yn y DU (Cyfnod uwchradd yn unig: mae'n rhaid i'r cymhwyster hwn gael o leiaf 50% o berthnasedd i'r pwnc y mae'r ymgeisydd am ei addysgu);

2.2 Cyfnod cynradd yn unig: wedi cyflawni safon sy'n cyfateb i TGAU Gradd C neu uwch (neu gymhwyster cyfatebol) mewn Gwyddoniaeth;

2.3 TGAU Gradd C neu uwch (neu gymhwyster cyfatebol) mewn Mathemateg neu Fathemateg-Rhifedd;

2.4 TGAU Gradd C neu uwch (neu gymhwyster cyfatebol) mewn naill ai Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith;

2.5 mae'n cadarnhau ei fod yn deall os bydd yn llwyddiannus, y bydd angen iddo wneud cais am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac, ar gyfer rhai llwybrau efallai y bydd yn ofynnol iddo gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg fel gweithiwr cymorth dysgu ysgol cyn dechrau ar y rhaglen;

2.6 mae ganddo ysgol gyflogi a enwir ac mae wedi cynnwys datganiad ategol ar gyfer y cais, sydd wedi'i ardystio gan y pennaeth, neu mae wedi nodi nad oes ganddo ysgol gyflogi a enwir ar y cam hwn ac wedi nodi'r lleoliad daearyddol lle mae'n ceisio lleoliad cyflogedig;

2.7 mae'n cadarnhau ei fod yn deall y bydd angen iddo hefyd gwblhau profiad ysgol mewn ail ysgol.

## 3. Cytundeb ffurfiol ag Ysgolion Partner Arweiniol ac Ail Ysgolion

3.1 Bydd pob Ysgol yn llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n egluro priod gyfrifoldebau'r Brifysgol Agored a'r ysgol. Wrth gofrestru, bydd myfyrwyr yn llofnodi eu bod yn deall priod gyfrifoldebau'r Brifysgol Agored a'r myfyriwr.

3.2 Rhaid i bob myfyriwr fodloni'r disgwyliadau a nodir yn y Cytundeb Atodol, gan gynnwys isafswm statudol o 120 diwrnod o ymarfer dysgu.

3.3 Bydd ysgolion hefyd yn derbyn, heb ragfarnu eu hawl i ddelio â materion cyflogaeth o dan eu gweithdrefnau arferol, yr ymdrinnir â materion Addasrwydd i Ymarfer sy'n codi mewn perthynas â phrofiad ymarfer dysgu neu faterion eraill sy'n codi mewn perthynas â chyflogaeth sy'n effeithio ar eu gallu i barhau ar y rhaglen, o dan y gweithdrefnau arferol hyn. Byddant hefyd yn cytuno y bydd pob parti yn rhannu unrhyw wybodaeth am unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad y myfyriwr a allai effeithio ar ei addasrwydd proffesiynol neu ei addasrwydd i ymarfer, a hefyd yn rhannu'r dystiolaeth berthnasol y gall fod ei hangen ar Y Brifysgol Agored ar gyfer y weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer hon.

3.4 Dylai ysgolion fod yn ymwybodol, os bydd achos pryder yn codi yn ystod y cyfnod o ymarfer dysgu, y dylent roi gwybod i Gyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru ar unwaith, yn ogystal â rhoi eu gweithdrefnau eu hunain ar waith, neu ochr yn ochr â hynny.

## Atodiad 6: Plismona

- Amodau Cofrestru ar gyfer Rhaglenni Plismona
- Cytundeb Atodol (Plismona)

### 1. Rhaglenni Plismona

**1.1 Y cymwysterau a gwmpesir:**

- R31 Prentisiaeth Gradd Cwnstabl yr Heddlu
- T51 Prentisiaeth Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu
- V21 Rhaglen Mynediad i Ddeiliaid Gradd (DHEB)
- W27 Rhaglen Mynediad Cwnstabl yr Heddlu (PCEP)

**1.2 Corff proffesiynol, statudol neu reoleiddio:**

- Y Coleg Plismona

**1.3 Cod Ymarfer a dogfennau rheoleiddio perthnasol:**

- Cod Moeseg y Coleg Plismona

### 2. Cyfansoddiad y Panel Adolygu

Rhaid i'r panel gynnwys o leiaf un aelod (nad yw'n cynnwys y sawl sy'n cymryd nodiadau) sydd â chefndir ym maes addysg plismona.

- Cadeirydd: Y Cyfarwyddwr Addysgu, neu ei enwebai.
- Cynrychiolydd o'r Heddlu sy'n cyflogi (na fu'n rhan o unrhyw ymchwiliad yn y gweithle).
- Cynrychiolydd o'r Tîm Profiad Myfyrwyr.
- Cynrychiolydd o'r Uned Datblygu Busnes.

- Cynrychiolydd myfyrwyr (myfyriwr presennol neu gyn-fyfyriwr) (o'r rhaglen plismona).
- Un o swyddogion cymryd nodiadau diduedd a phrofiadol Y Brifysgol Agored.

Ni ddylai unrhyw aelod o'r panel fod wedi ymwneud yn uniongyrchol ag addysgu'r myfyriwr dan sylw.

## 3. Gofynion mynediad penodol ar gyfer y rhaglenni hyn

3.1 Rhaid i fyfyrwyr plismona fod wedi'u cyflogi gan Heddlu ac wedi'u cofrestru ar y cwrs gan eu cyflogwr.

3.2 Gall heddluoedd unigol bennu eu gofynion mynediad addysgol eu hunain, yn ogystal â'r canlynol:

- Cymeriad da, y ceir tystiolaeth ohono drwy hunanddatganiad, proses recriwtio'r Heddlu, proses fetio a datgeliad troseddol manylach.
- Iechyd da, y ceir tystiolaeth ohono drwy hunanddatganiad, proses recriwtio'r Heddlu, proses fetio a datgeliad troseddol, proses sgrinio meddygol a phrosesau sgrinio eraill gan gânt eu derbyn.

3.3 Mae'r Safon Prentisiaeth hefyd yn rheoli'r gofynion mynediad ar gyfer y Prentisiaethau fel y'i cymeradwywyd gan yr Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau a'r Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol.

3.4 Rhaid i fyfyrwyr lofnodi cytundeb cofrestru sy'n cyfeirio at yr Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfyrwyr.

## 4. Cytundeb ffurfiol â chyflogwyr

4.1 Rhaid i unigolyn fod wedi'i gyflogi gan Heddlu er mwyn dilyn y tri chymhwyster a gwmpesir gan yr Atodiad hwn: ni chaiff unigolyn gofrestru ar gyfer y cymwysterau heb gadarnhad ei fod yn un o gyflogeion Heddlu. Mae'r Heddlu yn llywodraethu'r telerau cyflogaeth a chynnydd drwy ei lwybr proffesiynol. Os na fydd unigolyn wedi'i gyflogi mwyach, ni fydd yn fyfyriwr ar y cymhwyster y cafodd ei ymrestru ar ei gyfer mwyach.

4.2 Bydd pob cyflogwr yn llofnodi cytundeb/contract ffurfiol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo hysbysu'r Brifysgol Agored:

- Ar unwaith os caiff cyflogaeth unrhyw fyfyriwr neu ddysgwr ei therfynu (a'r rheswm dros hynny);
- Ynghylch pryderon a godwyd am fyfyrwyr dros gyfnod o amser cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol;
- Os bydd y myfyriwr yn absennol o'i gyflogaeth am gyhyd ag y byddai'n peryglu ei allu i gyflawni deilliannau dysgu'r rhaglen.

4.3 Gan mai'r heddlu sy'n cyflogi sy'n gyfrifol am gyflwyno Addasrwydd i Ymarfer i'r myfyriwr, rhaid i'r Brifysgol Agored sicrhau y caiff yr heddlu ei hysbysu'n llawn am unrhyw bryderon a nodir yng nghyd-destun astudio. Gwneir hyn gyda'ch cydsyniad lle y bo'n bosibl, ond cyfeiriwch at baragraff 7.7 yn Adran 7 Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth sy'n nodi pryd y gallwn rannu data heb eich cydsyniad. Bydd gweithdrefnau'r heddlu mewn perthynas ag addasrwydd i ymarfer yn cael blaenoriaeth dros weithdrefn Y Brifysgol Agored.

4.4 Bydd gan y cyflogwr, heb ragfarn, yr hawl i ddelio â materion cyflogaeth o dan ei weithdrefnau arferol. Rhaid atgyfeirio unrhyw bryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer sy'n codi mewn perthynas â chyflogaeth, ac a all effeithio ar allu'r myfyriwr i barhau ar y rhaglen, at y Brifysgol er mwyn pennu a ddylid dilyn y weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer hefyd. Mae'r cytundeb/contract hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob parti rannu gwybodaeth am unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad y myfyriwr a allai effeithio ar ei addasrwydd proffesiynol neu ei addasrwydd i ymarfer, a hefyd rannu'r dystiolaeth berthnasol y gall fod ei hangen ar y naill barti neu'r llall ar gyfer y weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer hon.

**4.5** Mae'n ofynnol i gyflogwyr hysbysu'r Brifysgol ar unwaith, drwy'r Tiwtor Ymarfer neu Reolwr Cyflwyno'r Rhaglen Brentisiaeth, yn ogystal â rhoi eu gweithdrefnau eu hunain ar waith, neu ochr yn ochr â hynny. Yn yr un modd, bydd y Brifysgol yn hysbysu'r cyflogwr drwy'r Tiwtor Ymarfer neu Reolwr Cyflwyno'r Rhaglen Brentisiaeth, yn ogystal â rhoi'r weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer ar waith, neu ochr yn ochr â hynny.

# Atodiad 7: Cwnsela

## 1. Rhaglen Broffesiynol Cwnsela

### 1.1 Y cymwysterau a gwmpesir:

- R86 BSc (Anrh) Cwnsela

### 1.2 Corff proffesiynol, statudol neu reoleiddio:

Ni chaiff cwnsela a seicotherapi yn y DU eu rheoleiddio ond maent wedi'u cynnwys ar hyn o bryd ar Gofrestrau Gwirfoddol Achrededig ar gyfer proffesiynau iechyd rheoleiddiedig anstatudol. Gweinyddir y cynllun gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, corff annibynnol sy'n atebol i Senedd y DU. Gall cyrff proffesiynol wneud cais i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol gymeradwyo eu cofrestr drwy ddangos bod y sefydliad yn cyrraedd safonau llywodraeth, moeseg a proffesiynol llym.

### 1.3 Cod Ymarfer a dogfennau rheoleiddio perthnasol:

Fframwaith SCoPEd: Mae'r Fframwaith Cwmpas Ymarfer ac Addysg (SCoPEd) yn nodi'r gofynion hyfforddiant a safonau ymarfer craiff ar gyfer cwnselwyr a seicotherapyddion sy'n gweithio gyda chleientiaid sy'n oedolion. Datblygwyd y fframwaith gan chwe chorff proffesiynol sy'n cadw cofrestrau sydd wedi'u hachredu gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol:

- Cyngor Seicotherapi y DU (UKCP): Cod moeseg ac ymarfer proffesiynol
- Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP): Fframwaith moesegol ar gyfer y proffesiynau cwnsela
- Cymdeithas Genedlaethol Cwnsela a Seicotherapi (NCPS): Cod ymarfer moesgeol
- Cyngor Seicoddadansoddi Prydain: Cod moeseg
- Human Givens Institute: Polisi Moeseg ac Ymddygiad
- Cymdeithas Cristnogion mewn Cwnsela a Phroffesiynau Cysylltiedig (ACC): Cod moeseg

## 1.4 Cyfansoddiad panel y Cyfarfod Adolygu:

- Uwch-aelod Academaidd arbenigol sydd wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol i ymarferwyr cwnsela/siecotherapi o'r Ysgol Seicoleg a Seicotherapi.
- Tiwtor Academaidd arbenigol sydd wedi cwblhau hyfforddiant tebyg na fu'n rhan o'r asesiad risg cychwynnol.
- Myfyriwr/cynrychiolydd myfyrwyr sydd â phrofiad o raglen broffesiynol ar wahân i'r rhaglen y mae'r myfyriwr yn ei hastudio gyda'r Brifysgol Agored (myfyriwr presennol neu gyn-fyfyriwr).
- Cyflogwr/cynrychiolydd cyflogwr neu ddarparwr lleoliad (ni ddylai fod yn aelod o staff o leoliad gwaith clinigol y myfyriwr, nac wedi bod yn rhan o'r asesiad risg cychwynnol yn yr achos penodol).
- Arholwr allanol ar gyfer R86 BSc Cwnsela.
- Un o swyddogion cymryd nodiadau diduedd a phrofiadol Y Brifysgol Agored.
- Rhaid i'r panel gynnwys o leiaf un aelod (heb gynnwys yr Arholwr Allanol a'r sawl sy'n cymryd nodiadau) sydd â chefndir yn y maes astudio penodol y mae'r myfyriwr yn ymgymryd ag ef.
- Ni ddylai unrhyw aelod o'r panel fod wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r myfyriwr dan sylw.

## 1.5 Gofynion mynediad penodol ar gyfer cwnsela:

Rhaid i fyfyrwyr sydd wedi'u hymrestru ar R86 a'r Dystysgrif Broffesiynol ddangos y galluoedd lefel mynediad a gofynion mynediad eraill (ar gam 1 a cham 2) a bennir gan raglen gwnsela Y Brifysgol Agored – ceir manylion a dolenni iddynt yn 'Adran 1.1 Cymwysterau' uchod.

## 2. Materion/ymddygiadau penodol a all godi pryderon ym maes cwnsela

2.1 Gall y materion a'r ymddygiadau penodol a all godi pryderon ym maes cwnsela fod yn wahanol i'r rheini yn y disgyblaethau eraill sydd wedi'u cynnwys yn y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer hon (e.e., Nyrsio, Gwaith Cymdeithasol). Yn ogystal â'r materion/ymddygiadau a restrir o dan ‘Adran 4.1.1 Codi pryderon’, ar gyfer Cwnsela, mae angen ystyried tair elfen ganlynol addasrwydd i ymarfer (a. i c. isod) (BACP, 2018).

Er nad yw codau ymarfer y cyrff proffesiynol ym maes cwnsela o reidrwydd yn cyfeirio'n benodol at yr agweddau hyn (gweler ‘Adran 1.3 Cod Ymarfer a dogfennau rheoleiddio perthnasol’), mae'r fframweithiau moesegol fel arfer yn cyfeirio at y materion a all godi pryderon.

2.2 At hynny, yng nghyd-destun cwnsela, gall achosion addasrwydd i ymarfer godi drwy:

- Pryderon a godir gan y goruchwylydd ymarfer a/neu'r rheolwr llinell;
- Pryderon neu gwynion gan gleientiaid a godir naill ai gyda'r lleoliad ymarfer neu a gyfeirir at staff y rhaglen;
- Pryderon a godir gan diwtoriaid y brifysgol neu Swyddogion Ymddygiad Academaidd sy'n deillio o ryngweithiadau â'r myfyriwr neu'r gwaith a gyflwynwyd ganddo.

a. **Llesiant yr ymarferydd:**

Mae llesiant yr ymarferydd, gan gynnwys agweddau corfforol, emosiynol, seicolegol, cymdeithasol ac ysbrydol, yn hanfodol i gynnal ansawdd gwaith therapiwtig. Er y gall problemau llesiant arwain at achosion addasrwydd i ymarfer ar sail tystiolaeth o ddiffyg gallu i wneud penderfyniadau therapiwtig neu ryngweithiadau amhriodol â chleientiaid, mae'n bwysig nodi y gall methiant i ddatgelu (e.e. i oruchwylwyr) a/neu reoli pryderon am lesiant yn briodol (drwy roi'r gorau i ymarfer therapiwtig dros dro) fod yn sail dros achosion addasrwydd i ymarfer. Gall y sefyllfaoedd canlynol godi pryderon os byddant yn creu risg i gleientiaid, goruchwylwyr, cydweithwyr, hyfforddwyr, y proffesiwn cwnsela a/neu ymarferwyr eu hunain:

- Hunanofal annigonol:

  Pan na fydd yr ymarferydd yn cymryd digon o ofal o'i anghenion iechyd corfforol neu iechyd meddwl ei hun.

- Anallu i hunanreoleiddio yn y gwaith:

  Pan fydd gwaith therapiwtig yr ymarferydd yn mynd yn drech nag ef yn aml (gall arwain at flinder emosiynol ac amharu ar y gallu i ddarparu gofal effeithiol).

- Gall argyfyngau ym mywyd personol, perthynol a theulu yr ymarferydd (e.e., yn gysylltiedig â phrofedigaeth, perthynas yn chwalu, pryderon iechyd, ac ati) waethygu problemau llesiant personol ac amharu ar y gallu i ddarparu gofal effeithiol.

- Blinder emosiynol, straen cronig a lludded.

**b.** **Cymhwysedd yr ymarferydd:**

Gall y materion/ymddygiadau penodol canlynol sy'n gysylltiedig â chymhwysedd yr ymarferydd godi pryderon os byddant yn peri risg i gleientiaid, goruchwylwyr, cydweithwyr, hyfforddwyr, y proffesiwn cwnsela a/neu ymarferwyr eu hunain:

- Cadw cofnodion gwael:
  Dogfennaeth anghyflawn, anghywir neu anamserol (gall beryglu gofal cleient a thorri safonau cyfreithiol a phroffesiynol).
- Methiant i ddilyn canllawiau moesegol:
  Anwybyddu/camddeall codau a chanllawiau moesegol (gall arwain at arferion anfoesegol, gan niweidio ymddiriedaeth y cleient a'i lesiant).
- Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) annigonol:
  Esgeuluso hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus (gall arwain at arferion sydd wedi dyddio a methiant i gyrraedd safonau proffesiynol cyfredol).
- Diffyg Cymhwysedd Diwylliannol:
  Methiant i ddeall a mynd i'r afael ag amrywiaeth ddiwylliannol, cymdeithasol ac unigol (gall arwain at ofal rhagfarnllyd neu ansensitif).

**c.** **Ymddygiad yr ymarferydd:**

Cydberthnasau Amhroffesiynol: Cydberthnasau personol deublyg (pan fydd y gydberthynas rhwng y cwnselydd a'r cleient yn gorgyffwrdd â chydberthynas arall) neu amhriodol â chleientiaid, cydweithwyr neu oruchwylwyr (gall beryglu ffiniau proffesiynol ac ymddiriedaeth y cleient).

- Cyfathrebu Amhriodol:
  Iaith amhroffesiynol/ddifrïol tuag at gleientiaid, cydweithwyr neu weithwyr proffesiynol eraill (gall niweidio cydberthnasau neu enw da proffesiynol).

- Ymddygiad amharchus/sy'n gwahaniaethu:
  Agweddau neu ymddygiadau amharchus, rhagfarnllyd neu sy'n gwahaniaethu tuag at eraill (gall dorri safonau moesegol).
- Methiant i gadw cyfrinachedd:
  Torri cyfrinachedd cleient heb gydsyniad neu gyfiawnhad priodol (gall niweidio ymddiriedaeth a thorri rhwymedigaethau cyfreithiol a moesegol).